# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 22 a 29 Mawrth 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

9 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

15 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

24 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

27 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

31 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

51 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

54 Cwestiynau i'r Trefnydd

54 Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba mor gyflym yr ymatebodd i gwestiynau ysgrifenedig yn 2006? (WAQ49222) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Trefnydd.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Yr wyf yn ymateb i'r cwestiwn ysgrifenedig uchod ar ran fy nghyd-Aelod yn y Cabinet.

| | |
|---|---|
| Nifer o gwestiynau Cynulliad ysgrifenedig a gyflwynwyd er mis Ionawr 2006 | 3,764 |
| y ganran o atebion terfynol i gwestiynau ysgrifenedig a roddwyd i Aelodau Cynulliad o fewn pum diwrnod gwaith | 18 y cant |
| y ganran o atebion terfynol i gwestiynau ysgrifenedig a roddwyd i Aelodau Cynulliad o fewn wyth diwrnod gwaith | 95 y cant |
| y ganran o atebion dros dro i gwestiynau ysgrifenedig a roddwyd i Aelodau Cynulliad | 5 y cant |
| y ganran o atebion dros dro i gwestiynau ysgrifenedig a roddwyd i Aelodau Cynulliad a ddilynir gan lythyr terfynol o fewn 10 diwrnod gwaith | 73 y cant |

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith ei bolisïau ar etholaeth Dwyrain Abertawe? (WAQ49437)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Dangosir effaith polisïau Llywodraeth y Cynulliad ar Ddwyrain Abertawe gan yr atebion a roddir gan fy nghyd-Aelodau yn y Cabinet, sy'n nodi'r llu o bolisïau a rhaglenni y maent yn eu gyrru ymlaen yn llwyddiannus.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r ymweliadau tramor a wnaed gan swyddogion ei adran y llynedd, ynghyd â'r rheswm dros yr ymweliadau hynny? (WAQ49522)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi darparu'r ateb canlynol.
Mae tabl wedi cael ei roi yn y Llyfrgell. Mae'r tabl isod yn rhestru'r ymweliadau yr ymgymerwyd â hwy gan swyddogion polisi ar draws adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y cyfnod rhwng 1 Mawrth 2006 a 28 Chwefror 2007.

Byddwch am nodi nad yw'r manylion am ymweliadau yn cynnwys ymweliadau â Gogledd Iwerddon nac unrhyw ranbarth arall o'r DU, ymweliadau gan swyddogion swyddfeydd preifat sy'n mynd gyda Gweinidogion nac ymweliadau â Chymru na'r DU gan swyddogion sydd wedi'u lleoli mewn swyddfeydd dramor. Manylwyd ar ymweliadau Gweinidogion mewn ymateb i gwestiynau ysgrifenedig a gyflwynwyd gennych ar 29 Ionawr (WAQ49226, WAQ49219, WAQ49212, WQA49241, WAQ49236, WAQ49231, WAQ49221, WAQ49217 a WAQ49250)

| | | |
|---|---|---|
| 1984 = 2 | 1990 = 3 | 1996 = 3 |

**Nick Bourne:** Pa ystyriaeth a roddir i ddefnyddio gwasanaeth trên Eurostar ar gyfer ymweliadau Gweinidogion a swyddogion â Brwsel, yn hytrach na chludiant awyr? (WAQ49523)

**Y Prif Weinidog:** Mae Gweinidogion a swyddogion wedi defnyddio gwasanaeth Eurostar a chludiant awyr i ymweld â Brwsel. Wrth benderfynu ar y dull cludiant mwyaf addas, ystyrir nifer o feini prawf gan gynnwys dyddiaduron Gweinidogion, cost, hwylustod ac ystyriaethau amgylcheddol.

**John Marek:** Faint o aelodau staff a delir drwy gyllideb Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi'r Comisiwn Cysgodol neu'r Llywydd a beth yw eu graddfeydd? (WAQ49923)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi darparu'r ateb canlynol:

Mae dau aelod o staff yn cael eu talu ar hyn o bryd drwy gyllideb yr wyf fi'n ei rheoli, i ddarparu cymorth i'r Comisiwn Cysgodol. Mae un yn uwch was sifil a'r llall yn swyddog gweithredol uwch.

Yr wyf yn trefnu i gopi o'r llythyr hwn gael ei roi yn y Llyfrgell.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba mor gyflym yr ymatebodd i gwestiynau ysgrifenedig yn 2006? (WAQ49211) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Trefnydd.***

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ49222.

**Nick Bourne:** Faint a wariwyd gan adran y Gweinidog ar letygarwch yn 2006? (WAQ49213) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Trefnydd.***

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae'r gwariant ar letygarwch yn ystod blwyddyn galendr 2006 wedi ei nodi yn y tabl isod**.**

| **Adran** | **£'000** |
|---|---:|
| Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | 7 |
| Menter, Arloesi a Rhwydweithiau | 371 |
| Yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad | 125 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 38 |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 6 |
| Diwylliant | 34 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio | 11 |
| Arolygiaethau Iechyd(1) | 6 |
| Adrannau Corfforaethol (2) | 196 |
| **Cyfanswm** | **795** |

(1) Mae'r arolygiaethau iechyd yn cynnwys Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Iechyd Cymru. Cofnodwyd y costau hyn ym mhrif grwp gwariant yr ymddiriedolaethau.
(2) Mae adrannau corfforaethol yn cynnwys: cyllid, adnoddau dynol, strategaeth, cyfathrebu a chydraddoldeb, gwasanaethau cyfreithiol, gwybodaeth a gwasanaethau corfforaethol, swyddfa'r Prif Weinidog, a swyddfa'r Ysgrifennydd Parhaol.

**Nick Bourne:** Pa ystyriaeth a roddir i ddefnyddio gwasanaeth trên Eurostar ar gyfer ymweliadau Gweinidogion a swyddogion â Brwsel, yn hytrach na chludiant awyr? (WAQ49536) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at WAQ49523.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r ymweliadau tramor a wnaed gan swyddogion ei adran y llynedd, ynghyd â'r rheswm dros yr ymweliadau hynny? (WAQ49537) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Trefnydd.***

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ49522.

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i annog pobl ifanc i wneud ymarfer corff? (WAQ49875)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Lansiais y ddogfen 'Dringo'n Uwch: Y Camau Nesaf' y llynedd, sy'n nodi fframwaith er mwyn buddsoddi mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae hwn yn cynnwys ystod o raglenni a fwriedir i greu rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc, fel ein rhaglen 5x60 a fwriedir i ddarparu gweithgareddau allgyrsiol mewn ysgolion uwchradd, y cynllun nofio am ddim, darparu mwy o hyfforddwyr o ansawdd i bobl ifanc a phartneriaeth awyr agored gogledd-orllewin Cymru, sy'n targedu pobl ifanc i'w hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau menter awyr agored drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo pêl-droed yng Nghymru? (WAQ49876)

**Alun Pugh:** Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn gweithio ochr yn ochr ag Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru i roi ein polisïau ar waith. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar gynyddu lefelau cyfranogiad ymysg bechgyn a merched, gwella lefelau sgiliau, cael hyfforddiant o ansawdd dda a sicrhau bod y cyfleoedd hyn ar gael i bawb.

**Ann Jones:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith darpariaethau Deddf Trwyddedu 2003 ar berfformiadau cerddoriaeth fyw yng Nghymru? (WAQ49879)

**Alun Pugh:** Nid yw trwyddedu adloniant wedi cael ei ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac nid wyf, felly, wedi gwneud unrhyw asesiad ffurfiol o effaith y Ddeddf Trwyddedu yng Nghymru.

Mater i Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU yw hwn. Er mai'r 22 awdurdod unedol yw'r awdurdodau trwyddedu yng Nghymru erbyn hyn, nid oes gan y Cynulliad unrhyw gyfrifoldeb am drwyddedu. Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i awdurdodau trwyddedu ystyried arweiniad Deddf Trwyddedu 2003 wrth lunio eu datganiadau polisi trwyddedu. Mae adran trwyddedu ac alcohol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn monitro effeithiau'r Ddeddf i sicrhau bod y Ddeddf yn gwneud popeth a addawyd.

Yr oedd yr arolwg cychwynnol a gyflawnwyd yn 2003-04 yn cwmpasu Cymru a Lloegr, ond mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno i gyllido cynnydd i'r sampl yng Nghymru i sicrhau bod gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ddarlun cyffredinol da o effaith y Ddeddf Trwyddedu ar draws Cymru a Lloegr.

Cyfwelodd MORI drwyddedeion (neu'r rhai sy'n gyfrifol am drefniadau trwyddedu) mewn 1,577 o dafarnau a gwesteiau, tai bwyta a chaffis, undebau myfyrwyr, clybiau bach, clybiau a chymdeithasau aelodau a neuaddau eglwys a chymuned ar draws Cymru a Lloegr. Yr oedd hyn yn cynnwys sampl atgyfnerthu o 267 o leoliadau yng Nghymru. Canfu'r arolwg bod:

- bron i hanner (47 y cant) y tafarnau, clybiau, undebau myfyrwyr a thai bwyta wedi darparu perfformiadau byw o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn a aeth heibio
- un rhan o bump (19 y cant) o'r lleoliadau yn darparu cerddoriaeth fyw yn rheolaidd—o leiaf ddwywaith y mis
- mwy na hanner (55 y cant) y lleoliadau yn darparu cerddoriaeth am fod y cwsmeriaid yn mynnu hynny ond nad oedd llawer o leoliadau posibl wedi meddwl am ddarparu cerddoriaeth fyw er gwaethaf y newidiadau yn y deddfau trwyddedu newydd.

Defnyddiwyd yr arolwg fel sail i waith y fforwm cerddoriaeth fyw, a sefydlwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Ionawr 2004. Gweithiodd y fforwm gyda phartneriaid ar draws y byd cerddoriaeth fyw i hyrwyddo cerddoriaeth fyw a meithrin doniau llawr gwlad. Cynrychiolwyd y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig ar y grŵp hwn.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol yr Ardd Fotaneg Genedlaethol yn Llanarthne? (WAQ49905)

**Alun Pugh:** Mae'r ardd wedi mynd drwy nifer o newidiadau gan gynnwys penodi cadeirydd newydd, nifer o ymddiriedolwyr newydd a chyfarwyddwr newydd a phrif swyddog cyllid newydd. Mae nifer o ddatblygiadau cyffrous ar y gweill ar gyfer y tymor twristiaeth hwn, gan gynnwys datblygu'r tŷ gwydr trofannol newydd a gynlluniwyd gan John Belle.

Gyda chymorth ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru mae'r ardd wedi cymryd camau mawr ymlaen sy'n argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol.

**Laura Anne Jones:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i greu cartref parhaol ar gyfer oriel anfarwolion y byd chwaraeon yng Nghymru? (WAQ49930)

**Alun Pugh:** Er mai cenedl fach yw Cymru, ni fu prinder unigolion sydd wedi cael llwyddiant ym myd chwaraeon ar lwyfan y byd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cefnogi nifer o arddangosfeydd i ddathlu eu llwyddiant, a'r un ddiweddaraf oedd yr arddangosfa am John Charles. Drwy Amgueddfa Cymru—National Museum Wales, mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu cartref i oriel anfarwolion Cymru ym myd chwaraeon yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru. Er i weithgor Cymru'n Creu gyflwyno syniadau ym mis Mai 2002 am gartref mwy i'r casgliad, nid oes neb erioed wedi cyflwyno achos busnes na chynllun i droi'r syniadau hynny'n realiti. Fodd bynnag, byddai gennym ddiddordeb i ystyried cynllun o'r fath.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae'n ei wneud i hyrwyddo theatrau cymunedol yng Nghymru? (WAQ49969)

**Alun Pugh:** Mae ein rhaglen y celfyddydau y tu allan i Gaerdydd yn darparu £2 filiwn ychwanegol o fuddsoddiad bob blwyddyn yn y celfyddydau perfformio y tu allan i Gaerdydd, yn ychwanegol at gymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru i Ganolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd. Caiff yr arian hwn ei ddyrannu i ganolfannau celfyddydau perfformio rhanbarthol; mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn cynnwys cwmnïau theatr rhanbarthol ac maent yn gweithio gyda theatrau cymunedol.

Mae'r tabl cyllido, isod, yn nodi'r dyfarniadau a roddwyd i'r canolfannau celfyddydau perfformio rhanbarthol. Mae'r lleoliadau wedi defnyddio'r arian i'w helpu i gyflwyno digwyddiadau celfyddydau perfformio o ansawdd uchel, gwneud gwaith datblygu cynulleidfaoedd a marchnata mwy effeithiol a llunio cynyrchiadau ar y cyd â lleoliadau eraill, gan gynnwys theatrau cymunedol a chwmnïau teithiol, yn ogystal ag ehangu cwmpas a graddfa'r gwaith sydd ar gael i leoliadau eraill. Mae'r canolfannau celfyddydau perfformio rhanbarthol yn cefnogi nifer o leoliadau llai yn eu hardaloedd, gan ledaenu'r

budd. Caiff yr arian ei ddefnyddio hefyd i hwyluso mwy o gynllunio a chydweithredu creadigol sy'n cael ei gyd-drefnu rhwng lleoliadau a grwpiau theatr.

Ym mis Hydref 2006, cyhoeddais £250,000 o arian refeniw ychwanegol i theatr cyfrwng Saesneg, gan ddod â chyfanswm y cyllid i theatr cyfrwng Saesneg i £750,000 o 2007-08. Amlinellwyd cynigion i ddefnyddio'r arian hwn i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ym mis Hydref 2006.

| **Arian Y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd, Canolfannau Celfyddydau Perfformio Rhanbarthol 2004-05** | **Swm y Grant** |
|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | £20,500 |
| Clwyd Theatr Cymru | £100,000 |
| Cwmni Mega | £16,725 |
| Cwmni Dawns Diversions Cyf | £35,317 |
| Ensemble Cymru | £3,325 |
| Opera Canolbarth Cymru | £3,325 |
| Cwmni Theatr Cymru | £50,000 |
| **Cyfanswm 2004-05** | **£229,192** |
| **2005-06** | |
| Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth | £38,000 |
| Sefydliad y Glowyr, Coed-duon | £25,000 |
| Cwmni Dawns Carlson | £40,000 |
| Clwyd Theatr Cymru | £100,000 |
| Creu Cymru—Asiantaeth Deithio Cymru | £9,775 |
| Earthfall Dance Cyf | £21,260 |
| Galeri Caernarfon Cyf | £90,642 |
| Theatr y Grand, Abertawe | £60,000 |
| Theatr y Pafiliwn | £55,000 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | £70,000 |
| Canolfan Gelfyddydau Taliesin | £17,000 |
| Canolfan Gelfyddydau Taliesin | £63,640 |
| Riverfront | £35,000 |
| Theatr Brycheiniog | £55,000 |
| Theatr Hafren | £8,000 |
| Theatr Mwldan | £55,000 |
| Cwmni Theatr Torch | £22,000 |
| Venue Cymru | £10,000 |
| **Cyfanswm 2005-06** | **£775,317** |
| **2006-07** | |
| Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth | £125,879 |
| Sefydliad y Glowyr, Coed-duon | £50,000 |
| Clwyd Theatr Cymru | £95,000 |
| Creu Cymru—Asiantaeth Deithio Cymru | £17,755 |
| Cwmni Mega | £35,000 |
| Earthfall Dance Cyf | £29,620 |
| Galeri Caernarfon Cyf | £65,642 |
| Galeri Caernarfon Cyf | £87,000 |
| Theatr y Grand, Abertawe | £40,000 |
| Theatr y Grand, Abertawe | £65,000 |
| Mappa Mundi | £33,480 |
| Theatr y Pafiliwn | £124,822 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | £125,000 |
| Theatr Spectacle Theatre | £88,486 |

| | |
|---|---|
| Canolfan Gelfyddydau Taliesin | £125,600 |
| Riverfront | £60,000 |
| Theatr Brycheiniog | £120,000 |
| Theatr Hafren | £49,852 |
| Theatr Mwldan | £125,000 |
| Cwmni Theatr Torch | £99,520 |
| Gŵyl Bro Morgannwg | £24,000 |
| Venue Cymru | £34,852 |
| Cwmni Theatr Volcano | £74,392 |
| **Cyfanswm 2006-07** | **£1,695,900** |
| **CYFANSWM LLAWN** | **£2,700,409** |

Mae rhaglen gyllido y celfyddydau y tu allan i Gaerdydd hefyd yn cefnogi digwyddiadau teithiol cymunedol ychwanegol Noson Allan mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Bu'r arian hwn yn help i gynyddu'r nifer o ddigwyddiadau i 635 yn 2006-7, ac yr oedd 187 o'r rhain mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi lleoliad ac enwau'r 14 clwb a'r 18 tîm newydd a ddatblygwyd ar gyfer chwaraewyr pêl-droed anabl er 2005? (WAQ49993)

**Alun Pugh:** Mae manylion y clybiau pêl-droed diweddaraf i chwaraewyr anabl a sefydlwyd er 2005 o ganlyniad uniongyrchol i'r gwaith partneriaeth rhwng Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Chwaraeon Anabledd Cymru fel a ganlyn:

**Ynys Môn**
Llewod Llangefni (Pob Anabledd 16+)

**Blaenau Gwent**
Abertyleri (Pob Anabledd dan 16 a 16+)

**Pen-y-bont ar Ogwr**
Bryntirion Athletic FC (Pob Anabledd 16+)

Clwb Pêl-droed Cynhwysol Ysgolion Pen-y-bont (Pob Anabledd dan 16)

**Caerffili**
Dreigiau Pont (Pob Anabledd dan 16)

**Caerdydd**
Coiotes Caerdydd (Pob Anabledd dan 16)

Adar Gleision Caerdydd VI (Clwb i'r rhai â nam ar eu golwg dan 16)

**Ceredigion**
Sêr Ceredigion (Pob Anabledd pob oedran)

**Conwy**
Aml Anabledd Llandudno (Pob Anabledd pob oedran)

**Sir Ddinbych**
Y Rhyl (Pob Anabledd dan 16)

**Sir y Fflint**

Nomads Cei Connah (Pob Anabledd dan 16)

**Merthyr Tudful**
Dreigiau Merthyr (Pob Anabledd dan 18)

**Sir Fynwy**
Clwb Iau Maerdy (Y Fenni) (Pob Anabledd dan 16)

**Castell-nedd/Port Talbot**
Dreigiau Afan Lido (Pob Anabledd dan 16) [cyn 2005]

**Casnewydd**
Dreigiau Casnewydd (Pob Anabledd pob oedran) [cyn 2005]

Dreigiau Cadair Olwyn Casnewydd (pob oedran)

**Sir Benfro**
Rhyfelwyr Cleddau (Pob Anabledd pob oedran)

Rhyfelwyr Preseli (Pob Anabledd pob oedran)

**Powys**
Llandrindod JFC (Pob Anabledd dan 16)

**Abertawe**
Calonnau Dewr Abertawe (Pob Anabledd pob oedran) [cyn 2005]

VIP's Dinas Abertawe (â nam ar eu golwg dan 16)

**Bro Morgannwg**
Cochion y Fro (Pob Anabledd dan 16)

Clwb Pêl-droed Pobl Fyddar Llanilltud Fawr (16+)

**Mae'r clybiau isod yn cael eu datblygu, neu maent i fod i ddechrau yn fuan:**

**Sir Gaerfyrddin**
Tref Caerfyrddin (Pob Anabledd dan 16)
Cynhelir gŵyl recriwtio gychwynnol ym mis Ebrill 2007.

**Conwy**
Mochdre JFC (Pob Anabledd dan 16)
Sesiynau i ddechau ym mis Ebrill 2007.

**Sir Ddinbych**
Rhyl VI FC – Clwb Pêl-droed i'r Rhai â Nam ar eu Golwg
Sesiynau i ddechrau yn hwyr ym mis Mawrth 2007.

**Castell-nedd/Port Talbot**
Welsh Wonders
Mae clwb newydd i rai â phob anabledd, dan 16, yn cael ei ffurfio fel cangen o glwb chwaraeon amrywiol pob anabledd Welsh Wonders sydd eisoes wedi ennill ei blwyf. Mae'r sesiynau wedi dechrau'n barod.

**Powys**
Ystradgynlais AFC/Clwb Aml Chwaraeon Ystradgynlais

Mae clwb aml chwaraeon Ystradgynlais sydd wedi ennill ei blwyf eisoes yn cymryd rhan mewn gwyliau/twrnameintiau penodol i bêl-droed. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu clwb pêl-droed ar wahân mewn partneriaeth ag Ystradgynlais AFC i gynnal y gweithgaredd hwn.

**Rhondda Cynon Taf**
Ymddiriedolaeth Bentref Cambrian
Mae sesiynau allgyrsiol yn cael eu cynnal yn Ysgol Hen Felin yn yr Ystrad gyda golwg ar eu hagor i ysgolion eraill i ffurfio clwb, tebyg i Dor-faen isod.

**Tor-faen**
St. Albans/Ysgolion Tor-faen
Sesiynau ar y cyd i ddechrau ym mis Mawrth 2007 rhwng pob ysgol AAA yn yr awdurdod gyda golwg ar ffurfio clwb.

**Wrecsam**
Brickfield FC (Pob Anabledd dan 16)
Mae’r sesiynau i fod i ddechrau ym mis Ebrill 2007.

Mae’r rhan fwyaf o’r clybiau hyn yn glybiau pob anabledd i chwaraewyr dan 16 oed. O ran y nifer o dimau, fe’n hysbysir gan Chwaraeon Anabledd Cymru ac Ymddiriedolaeth yr FAW y byddai gan bob clwb o leiaf ddau dîm.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba mor gyflym yr ymatebodd i gwestiynau ysgrifenedig yn 2006? (WAQ49237) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Trefnydd.***

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ49222.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi’r amcangyfrifiad, ynghyd â dadansoddiad, ar gyfer yr ymateb ynghylch y gost anghymesur a roddwyd wrth ateb WAQ49151? (WAQ49400)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Amcangyfrifwyd y byddai’r gost o ddarparu ateb llawn i WAQ49161 yn £578 o leiaf.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru pob prosiect mewnfuddsoddi a dderbyniodd gymorth rhanbarthol dewisol, ynghyd â nifer y swyddi a grëwyd, ym mhob etholaeth yng Nghymru er 2003? (WAQ49401)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Andrew Davies:** Mae’r ddogfen sydd ynghlwm yn rhestru, fesul etholaeth, y prosiectau mewnfuddsoddi y cynigiwyd cymorth rhanbarthol dewisol iddynt rhwng 1 Ionawr 2003 a Mawrth 2007. Diffinnir mewnfuddsoddi fel buddsoddiad uniongyrchol o dramor a buddsoddiad o rannau eraill o’r Deyrnas Unedig. Rhagolygon ar yr adeg y gwneir y cynnig yw’r ffigurau am swyddi; nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr gan nad yw rhai cynigion wedi cael eu cynnwys am nad ydynt eto’n wybodaeth gyhoeddus.

**Nick Bourne:** Pa ystyriaeth a roddir i ddefnyddio gwasanaeth trên Eurostar ar gyfer ymweliadau Gweinidogion a swyddogion â Brwsel, yn hytrach na chludiant awyr? (WAQ49530) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe'ch cyfeiriaf at WAQ49523.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r ymweliadau tramor a wnaed gan swyddogion ei adran y llynedd, ynghyd â'r rheswm dros yr ymweliadau hynny? (WAQ49531) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Trefnydd.***

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ49522.

**Nick Bourne:** Pa gyfran o deithwyr ar gyfer y cyswllt awyr arfaethedig rhwng maes awyr yr Awyrlu Brenhinol yn y Fali a Chaerdydd yr amcangyfrifir fydd yn dod o'r sector preifat yn hytrach na'r sector cyhoeddus? (WAQ49846)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Andrew Davies:** Nid yw'r ffigurau teithwyr amcangyfrifedig wedi gwahaniaethu rhwng y sectorau preifat a chyhoeddus.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau i leihau gwasanaethau trên rhwng de Cymru a Llundain er mwyn hwyluso Rasys Cheltenham? (WAQ49906)

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Yr Adran Drafnidiaeth sy'n gyfrifol am reoli masnachfraint First Great Western (FGW), sy'n rhedeg gwasanaethau trên rhwng de Cymru a Llundain. Mae FGW wedi gwneud newidiadau i'r amserlen i alluogi teithwyr, yn cynnwys cefnogwyr rasio o Gymru, i fynd i'r ŵyl. Mae manylion y newidiadau hyn i'w gweld ar wefan FGW ar: http://www.firstgreatwestern.co.uk/Content.aspx?id=898.

Parhad yw hyn o arfer y mae FGW wedi ei sefydlu yn ystod y cyfnod o alw uchel iawn pan na fyddai'r lefel llawer is o wasanaethau rhestredig i Cheltenham yn gallu ymdopi oherwydd y galw uchel am deithio i'r rasys. Mae'n werth nodi bod FGW a chwmnïau trenau eraill wedi darparu lefel llawer uwch o wasanaethau i Gaerdydd ar gyfer digwyddiadau yn Stadiwm y Mileniwm.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad cynnydd ar y cynlluniau i uwchraddio gorsaf fysiau'r Cwadrant yn Abertawe? (WAQ49907)

**Andrew Davies:** Ar 5 Mawrth 2007, cyhoeddais fy mod wedi dyfarnu £3.88 miliwn o'r setliad grant trafnidiaeth am 2007-08 i alluogi Cyngor Dinas a Sir Abertawe i fwrw ymlaen i ailddatblygu cyfnewidfa fysiau'r Cwadrant. Nodais hefyd y dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod cymaint â phosibl o gyllid sector preifat ar gael i helpu gyda'r cynllun. Yr wyf wedi gofyn i swyddogion Trafnidiaeth Cymru gwrdd â'r awdurdod lleol i drafod sut mae modd symud y prosiect yn ei flaen.

**David Lloyd:** A yw'r Gweinidog wedi gwneud unrhyw asesiad o effaith bosibl technoleg SFF (Solid Free-form Fabrication) ar ddyfodol economi Cymru? (WAQ49908)

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi ystyried SFF ar ei ben ei hun, ond mae'r technolegau prototeipio cyflym hyn yn cael eu cynnwys wrth inni ystyried cymorth i weithgynhyrchu. Mae gan y ganolfan ymchwil cynnyrch a dylunio yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd a'r ganolfan peirianneg fecanyddol ym Mhrifysgol Caerdydd ill dwy gyfleusterau a sgiliau rhagorol yn y maes hwn, sy'n gallu helpu busnesau yng Nghymru i symud ymlaen â thechnolegau SFF. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer prototeipio ar hyn o bryd, ond maent yn dechrau cael eu defnyddio ym maes gweithgynhyrchu mewn metelau a pholymerau, yn enwedig i gynhyrchu niferoedd isel ac ar gyfer cynnyrch a gynhyrchir yn unswydd gan ddefnyddio cydrannau safonol, megis teclynnau clyw sy'n ffitio yn y glust.

**Jenny Randerson:** Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael ynglŷn â sefyllfa bensiwn Allied Steel and Wire? (WAQ49927)

**Andrew Davies:** Er 2002, mae'r Prif Weinidog a minnau wedi codi sefyllfa aelodau cynllun pensiwn ASW yn rheolaidd gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU, yn cynnwys Ysgrifenyddion Gwladol blaenorol a phresennol dros Waith a Phensiynau. Yr ydym yn parhau i wneud hynny.

Ar 21 Chwefror, penderfynodd yr Uchel Lys ei fod yn cytuno â'r ombwdsmon seneddol fod gwybodaeth Llywodraeth y DU am ddiogelwch cynlluniau pensiwn galwedigaethol yn gamarweiniol, er i'r llys wrthod casgliadau eraill yn adroddiad yr ombwdsmon.

Croesawaf ddatganiad yr Ysgrifennydd Gwladol ar 22 Chwefror lle dywedodd fod Llywodraeth y DU eisoes yn adolygu'r cynllun cymorth ariannol gan gadw canfyddiadau dyfarniad Llys Cyfiawnder Ewrop ar 25 Ionawr mewn cof, ac yr ydym yn aros gyda diddordeb mawr am ymateb Llywodraeth y DU i benderfyniad yr Uchel Lys. Yr wyf yn falch yn wir am gyhoeddiad y Canghellor yn y gyllideb ddoe y rhoddir £6 biliwn ychwanegol yn y cynllun cymorth ariannol, a fydd yn sicrhau bod pawb yr effeithir arnynt yn cael 80 y cant o'u hawliau pensiwn craidd.

**Trish Law:** A yw'r Prif Weinidog wedi bod yn rhan o unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â chymorth i sicrhau swyddi Cymreig yn Remploy? (WAQ49933) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.***

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Yr wyf mewn cysylltiad yn rheolaidd a'r Adran Gwaith a Phensiynau am yr adolygiad o Remploy sydd ar y gweill. Cyfarfûm hefyd â'r Gweinidog dros bobl anabl yn yr Adran Gwaith a Phensiynau, Anne McGuire, ym mis Rhagfyr, i drafod goblygiadau'r adolygiad i Gymru. Mae Remploy yn ymgynghori â'r staff, y gweithwyr a'r undebau llafur ar hyn o bryd am ei strategaeth foderneiddio, a bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ceisio barn Llywodraeth Cynulliad Cymru pan fydd cynigion Remploy wedi cael eu cyflwyno i gael eu hystyried.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r meini prawf ar gyfer dyrannu cronfeydd adfywio lleol i awdurdodau lleol, ac a all esbonio a wnaeth awdurdodau lleol ymgeisio am gyllid neu a ddyrannwyd cyllid yn ôl disgresiwn Llywodraeth y Cynulliad? (WAQ49952)

**Andrew Davies:** Er 2001 mae'r arian cyfatebol yn y gronfa adfywio lleol wedi cael ei ddyrannu ar sail fformiwla i'r 21 awdurdod lleol sy'n gymwys i gael arian strwythurol Ewropeaidd o dan raglenni 2000—2006. Mae'r fformiwlâu yn adlewyrchu'r boblogaeth gyfan, y boblogaeth mewn wardiau difreintiedig a theneurwydd y boblogaeth (Amcan 1) a'r boblogaeth mewn wardiau cymwys (Amcan 2).

Er mwyn cael arian adfywio lleol, rhaid i bob awdurdod lleol gyflwyno cais i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru am bob prosiect cymwys yn ei ardal.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a oedd y £3.2 miliwn a dderbyniwyd gan gronfeydd adfywio lleol Cyngor Sir Caerfyrddin yn seiliedig ar dendrau a wnaed gan y cyngor? (WAQ49953)

**Andrew Davies:** Mae arian y gronfa adfywio lleol yn cael ei roi ar sail ceisiadau cyllid Ewropeaidd sydd wedi cael eu cymeradwyo, a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol am brosiectau penodol. Nid oes £3.2 miliwn o arian y gronfa adfywio lleol wedi cael ei ddyfarnu i unrhyw brosiect penodol sy'n cael cyllid Ewropeaidd yn Sir Gaerfyrddin.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae'n ei wneud i annog buddsoddiad tramor yng Nghymru? (WAQ49960)

**Andrew Davies:** Mae gennym amryw o fesurau cymorth i annog mewnfuddsoddi, yn cynnwys cymorth ariannol a chymorth arall. Mae'r mesurau hyn ar gael i gwmnïau cynhenid hefyd, ond y cymhelliad pwysicaf yw economi gref, ddynamig a sefydlog. Y ffactorau hyn sy'n dod â llwyddiant cynaliadwy i Gymru ac i bobl Cymru.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y cwmnïau a ddewisodd leoli eu hunain yng Nghymru er 1999? (WAQ49961)

**Andrew Davies:** Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 1999 a diwedd mis Chwefror 2007, yr ydym wedi cofnodi 323 o brosiectau mewnfuddsoddi newydd, 141 o dramor, i Gymru a chyfanswm o 88 trefniant caffael a chyd-fenter, 67 ohonynt o dramor. Mae'n rhesymol casglu bod prosiectau mewnfuddsoddi newydd yn cynrychioli cwmnïau sydd wedi dewis ymsefydlu yng Nghymru oherwydd yr amgylchedd masnachol bywiog y mae Cymru'n ei gynnig a bod trefniannau caffael a chyd-fentrau, llawer ohonynt wedi cynnwys cwmnïau sy'n newydd i Gymru, wedi digwydd am fod cyfle wedi codi a bod y cyfle hwnnw'n mynd law yn llaw ag amgylchedd masnachol bywiog a chryf.

Mae uchafbwyntiau o bwys megis Britax Rumbold, Delicarta, Wockhardt, G24 Innovations, General Dynamics, Handelsbanken, ING Direct, Grŵp Quinn a Yell.com. Maent hwy ac eraill, yn cynnwys y cynlluniau ail-fuddsoddi yr ydym wedi'u sicrhau, yn dystiolaeth glir iawn fod Cymru'n cynnig hinsawdd sy'n gallu denu a chynnal cwmnïau o amryw o sectorau megis awyrofod, y sector fferyllol, gwasanaethau ariannol, gweithgynhyrchu cyffredinol, telathrebu ym maes amddiffyn a gwasanaethau busnes.

Mae gennym economi amrywiol a chytbwys sy'n darparu cyfle yn yr economi wybodaeth, y sector gweithgynhyrchu, y sector gwasanaethu a'r sector cyhoeddus. Adeiledir ar y llwyddiannau hyn yn y blynyddoedd i ddod.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae'n ei wneud i wella cysylltiadau bws rhwng y Gogledd a'r De? (WAQ49971)

**Andrew Davies:** Ar 7 Mawrth 2007, cyhoeddais gynlluniau i ffurfio bwrdd rheoli newydd ar gyfer rhwydwaith TrawsCambria. Caiff y bwrdd ei gadeirio gan Simon Shouler, pennaeth yr Is-adran Trafnidiaeth, Cynllunio a Gweinyddiaeth yn fy adran. Bydd hefyd yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli rhanddeiliaid allweddol o blith y cwmnïau bysiau, awdurdodau lleol, consortia trafnidiaeth rhanbarthol a defnyddwyr bysiau a threnau yn ogystal â'r sector twristiaeth. Mae'r bwrdd wedi cael y dasg o ddod â chynlluniau manwl gerbron i gwblhau'r rhwydwaith bysiau pellter hir erbyn 2009.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae'n ei wneud i wella cysylltiadau rheilffordd rhwng y Gogledd a'r De? (WAQ49972)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i wella gwasanaethau rheilffordd yng Nghymru. Yr ydym wedi cyllido gwelliannau i orsafoedd, estyniadau at blatfformau, cerbydau ychwanegol, gwasanaethau ychwanegol a gwelliannau diogelwch ledled Cymru, ac yr ydym yn parhau i wneud hynny.

Cyflwynodd Trenau Arriva Cymru 12 trên modern dosbarth 175 i'w fflyd o fis Rhagfyr 2006 i ddisodli'r un nifer o drenau hŷn dosbarth 158 yn uniongyrchol. Caiff y trenau eu defnyddio ar grŵp gwasanaethau gorllewin Cymru i Fanceinion a gwasanaethau Caerdydd i Gaergybi.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi ar hyn o bryd, ynghyd â Threnau Arriva Cymru, yn ystyried dichonoldeb cyflwyno darpariaeth dosbarth busnes ar gerbydau ar wasanaethau Caergybi-Caerdydd.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae'n ei wneud i wella'r seilwaith ffyrdd yn y Canolbarth a'r Gorllewin? (WAQ49973)

**Andrew Davies:** Mae fy mwriadau ar hyn o bryd o ran gwelliannau ar raddfa fawr wedi eu cynnwys yn atodiad 2004 at flaenraglen 2002 y cefnffyrdd. Yn ychwanegol at y gwelliannau hyn, mae fy adran, Trafnidiaeth Cymru, hefyd yn ymgymryd â nifer fawr o welliannau ar raddfa lai, yn amrywio mewn maint o fân gynlluniau cymunedol, megis gwella troedffyrdd, a chynlluniau diogelwch hyd at gynlluniau uwchraddio, mwy, fel yr un yn Llansanffraid ar yr A40, gerllaw Tal-y-bont ar Wysg, sydd bron â chael ei gwblhau, a'r gwelliant arfaethedig yng Nglandyfi ar yr A487.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae'n ei wneud i wella'r seilwaith ffyrdd rhwng y Gogledd a'r De? (WAQ49974)

**Andrew Davies:** Mae fy mwriadau ar hyn o bryd o ran gwelliannau ar raddfa fawr wedi eu cynnwys yn atodiad 2004 at flaenraglen 2002 y cefnffyrdd, sy'n dangos nifer o gynlluniau gwella ar yr A470 a'r A483 i'r gogledd o'r Drenewydd, sef craidd y llwybrau gogledd-de. Yn ychwanegol at y rhain, mae fy adran, Trafnidiaeth Cymru, yn ymgymryd â nifer fawr o welliannau ar raddfa lai, yn amrywio mewn maint o fân gynlluniau cymunedol a chynlluniau diogelwch hyd at gynlluniau uwchraddio, mwy.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae'n ei wneud i annog buddsoddi yn ein meysydd awyr yng Nghymru? (WAQ49975)

**Andrew Davies:** Mae grant trafnidiaeth o £1.5 miliwn wedi cael ei dalu i Gyngor Sir Ynys Môn i godi'r derfynfa newydd i deithwyr sifil ym maes awyr Môn.

Dyfarnwyd grant seilwaith adran 10 o £110,000 gan Awdurdod Datblygu Cymru i Gyngor Sir Powys i helpu i gyllido'r estyniad at y rhedfa ym maes awyr y Trallwng. Cwblhawyd y gwaith hwn ym mis Ebrill 2006.

Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt ers tro o blaid datblygiad sylweddol i ehangu maes awyr gorllewin Cymru yn Aber-porth yn y dyfodol.

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn esbonio pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i gefnogi cais gan gwmni rheilffordd Wrecsam, Swydd Amwythig a Marylebone i Swyddfa'r Rheolydd Rheilffyrdd am wasanaeth rheilffordd newydd rhwng Wrecsam a Llundain? (WAQ49990)

**Andrew Davies:** Mae cwmni rheilffordd Wrecsam, Swydd Amwythig a Marylebone (WSMR) wedi adolygu ei gynlluniau mynediad agored yn dilyn gwrthwynebiad i'w gais a gyflwynwyd gan drenau

arfordir y gorllewin, sydd â chymal amddiffyn 'dim cystadleuaeth' yn eu cytundeb hawl i ddefnyddio'r cledrau. O ganlyniad, mae WSMR wedi gwneud cais newydd i Swyddfa'r Rheolydd Rheilffyrdd am drwydded hawl i ddefnyddio'r cledrau.

Mae Swyddfa'r Rheolydd Rheilffyrdd wedi ymgynghori'n ffurfiol â Llywodraeth y Cynulliad am gais diwygiedig WSMR am gytundeb hawl i ddefnyddio'r cledrau. Gallaf gadarnhau y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi ymateb cwbl gefnogol i'r ymarferiad ymgynghori hwn.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu buddsoddi'n strategol i wella'r seilwaith rheilffyrdd a darparu depo yn Wrecsam i'r diben o wella capasiti a gallu'r ased hwn. Bydd hyn o fudd i'r cwmnïau trenau i gyd, yn cynnwys WSMR. Mae buddsoddiad Llywodraeth y Cynulliad yn Wrecsam yn amodol ar gynnwys yr ased yn y sylfaen asedau a reoleiddir ar ôl iddo gael ei wella.

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn esbonio pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cymryd neu y mae'n bwriadu eu cymryd wrth ymateb i strategaeth defnyddio llwybr Gogledd-orllewin Lloegr gan Network Rail? (WAQ49991)

**Andrew Davies:** Cynhyrchir strategaethau defnyddio llwybrau gan Network Rail (NR) ac maent yn nodi sut y dylai'r rheilffyrdd edrych dros y 10 mlynedd nesaf—caiff un ei gynhyrchu am bob rhanbarth daearyddol. Nid yw strategaeth defnyddio llwybrau Gogledd-orllewin Lloegr wedi cael ei chyhoeddi eto ac nid wyf am geisio dyfalu beth fydd ei gynnwys.

Yr hyn y gallaf ei gadarnhau yw bod y broses ymgynghori am strategaeth defnyddio llwybrau Cymru eisoes yn mynd rhagddi. Bydd strategaeth defnyddio llwybrau Cymru'n cynnwys rheilffyrdd yng Nghymru, yn ogystal â'r rheilffyrdd hynny sy'n cysylltu Cymru â Lloegr drwy ddarpariaeth gwasanaethau teithwyr Trenau Arriva Cymru. Mae fy swyddogion yn ymwneud â phroses strategaeth defnyddio llwybrau Cymru, a bydd canlyniad y gwaith hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2008.

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn esbonio pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cymryd i sicrhau bod gwarantau cyfredol Llywodraeth y DU i gadw cyfran y DU o waith y dyfodol ar brosiectau cynhyrchu awyrennau Airbus yn cael eu gorfodi? (WAQ49992)

**Andrew Davies:** Yn draddodiadol mae'r DU wedi sicrhau cyfran waith o 20 y cant o raglenni awyrennau sifil newydd Airbus. Nid oes gwarantau ynglŷn â'r gyfran waith yn y dyfodol, ond bwriadwyd ymgymeriadau a roddwyd gan EADS i Lywodraeth y DU i sicrhau mai am resymau economaidd a masnachol pur y gwneid unrhyw benderfyniadau i leoli pecynnau gwaith sy'n effeithio ar y DU. Mae gan Lywodraethau'r DU a'r Cynulliad berthynas gref ag EADS ac Airbus, a'r Adran Masnach a Diwydiant, yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, oedd yn cynrychioli buddiannau'r DU yn rhaglen ailstrwythuro Power 8 Airbus a dosraniad gwaith yr A350 XWB.

O dan y cyhoeddiad Power 8 diweddar, y DU, drwy ei gweithfeydd ym Mrychdyn a Filton, fydd canolfan ragoriaeth Airbus o ran adenydd o hyd, a bydd Brychdyn yn dod yn 'safle craidd' o fewn Airbus o ran cydosod adenydd yn derfynol. Ar gyfer yr A350 XWB newydd, mae'r DU wedi sicrhau cyfran waith o 20 y cant. Bydd yn gyfrifol am ddylunio'r adenydd a'r gwaith peirianyddol arnynt drwyddo draw yn Filton, a bydd y gwaith o gydosod yr adenydd yn cael ei wneud ym Mrychdyn.

O ystyried bod Airbus UK yn ganolfan ragoriaeth i adenydd a'r sefyllfa a sicrhawyd ar gyfer yr A350 XWB, bydd y DU mewn sefyllfa gref i sicrhau trefniadau tebyg o ran cyfran waith ar raglenni awyrennau yn y dyfodol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba mor gyflym yr ymatebodd i gwestiynau ysgrifenedig yn 2006? (WAQ49232) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Trefnydd.***

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ49222.

**Nick Bourne:** Pa ystyriaeth a roddir i ddefnyddio gwasanaeth trên Eurostar ar gyfer ymweliadau Gweinidogion a swyddogion â Brwsel, yn hytrach na chludiant awyr? (WAQ49532) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe'ch cyfeiriaf at WAQ49523.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r ymweliadau tramor a wnaed gan swyddogion yn ei hadran yn y flwyddyn ddiwethaf, ynghyd â'r rheswm dros yr ymweliadau hynny? (WAQ49533) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Trefnydd.***

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ49522.

**Janet Ryder:** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n hysbysebu'r cynllun lwfans cynhaliaeth addysg? (WAQ49891)

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo'r cynllun lwfans cynhaliaeth addysg dan faner Cyllid Myfyrwyr Cymru, ac mae gwybodaeth yn cael ei darparu ar y wefan ddwyieithog gynhwysfawr, studentfinancewales.co.uk, a chyngor dros y ffôn ar 0845 602 8845. Caiff pecynnau ymgeisio, taflenni a phosteri eu dosbarthu gan bartneriaid cyflenwi ym mis Mai-Mehefin bob blwyddyn ac anfonir taflen wybodaeth yn uniongyrchol at lawer o fyfyrwyr yn eu cartrefi yr un pryd ag y byddant yn cael canlyniadau eu harholiadau haf. Mae ymgyrchoedd hysbysebu ar ffurf posteri a hysbysebion yn y wasg wedi cael eu defnyddio hefyd i ehangu ymwybyddiaeth o'r cynllun yn ystod tair blynedd ei gyflwyno.

**Janet Ryder:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth San Steffan i hysbysebu'r cynllun lwfans cynhaliaeth addysg? (WAQ49892)

**Jane Davidson:** Er bod y cynlluniau lwfans cynhaliaeth addysg sydd ar waith yn y pedair gwlad yr un fath yn eu hanfod, maent serch hynny yn rhaglenni ar wahân. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hysbysebu'r cynllun lwfans cynhaliaeth addysg yng Nghymru dan faner Cyllid Myfyrwyr Cymru. Mae ein llenyddiaeth yn ei gwneud yn glir fod y cynllun yng Nghymru yn gymwys i ysgolion a cholegau sy'n cymryd rhan yng Nghymru. Caiff y cynllun yn Lloegr ei weinyddu a'i hysbysebu ar ran Llywodraeth San Steffan gan y Cyngor Dysgu a Sgiliau. Mae tîm Is-adran Cyllid Myfyrwyr Cymru y Cynulliad yn cysylltu â chysylltiadau yn y Cyngor Dysgu a Sgiliau i rannu gwybodaeth ac ymdrin â materion trawsffiniol.

**Helen Mary Jones:** Pa ganran o gyllid i ddarparwyr dysgu yn y gwaith sy'n cael ei wario ar hyfforddi a) gweithwyr yn y sector cyhoeddus, a b) gweithwyr yn y sector preifat mewn busnesau bach a chanolig yn benodol? (WAQ49893)

**Jane Davidson:** Nid ydym yn cadw gwybodaeth i ddangos a yw cyflogwr dysgwr seiliedig ar waith yn sefydliad sector cyhoeddus ynteu breifat. Fodd bynnag, mae ein cofnodion yn dangos bod 4,579 o'r 6,588

o gyflogwyr sy'n ymwneud â dysgu seiliedig ar waith yn fusnesau bach a chanolig eu maint, felly, tua 70 y cant.

**Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo dysgu ieithoedd tramor yng Nghymru? (WAQ49903)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i wella'r cyfleoedd i astudio ieithoedd tramor modern. Mae ein strategaeth ieithoedd genedlaethol, 'Ieithoedd sy'n Cyfrif', yn nodi sut y byddwn yn mynd ati i gynyddu'r niferoedd sy'n astudio ieithoedd tramor modern y tu hwnt i 14 oed a chynyddu'r gydnabyddiaeth gan ysgolion, disgyblion, rhieni a chyflogwyr o bwysigrwydd dysgu ieithoedd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi'r cyfrifoldeb i CILT Cymru, y ganolfan wybodaeth ac ymchwil ar ddysgu ieithoedd, i gynorthwyo'r gwaith o gyflwyno'r strategaeth drwy weithio gydag ysgolion, awdurdodau lleol, darparwyr dysgu a chyflogwyr. Gyda Llywodraeth y Cynulliad yn darparu £700,000 y flwyddyn iddi, mae CILT yn darparu rhaglen o ddatblygiad proffesiynol i ymarferwyr ac yn cefnogi gwaith peilot ar gyfer ysgolion cynradd mewn partneriaeth ag ysgol uwchradd leol i gynnig iaith dramor. Mae'r ganolfan yn gweithio hefyd gydag ystod o ddarparwyr i ddatblygu opsiynau ehangach o ran dysgu ieithoedd i bobl ifanc 14 i 19 oed ac i hyrwyddo manteision ieithoedd i fusnesau.

Yr oedd y gwerthusiad annibynnol yn ddiweddar o waith mewn ysgolion cynradd yn gadarnhaol iawn a chadarnhaodd fod disgyblion, athrawon a rhieni wedi croesawu'r cyfle i ddechrau dysgu iaith yng nghyfnod allweddol 2. Ar y sail hon, cytunwyd y byddai adnoddau'n cael eu darparu yn y gronfa ysgolion gwell, o 2008 ymlaen, i alluogi pob ysgol gynradd i gynnig iaith dramor ar sail anstatudol.

Fel y nodwyd yn 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith', mae angen cloriannu ac ystyried sut y gallwn adeiladu ar gryfderau, yn cynnwys y modiwl iaith ym magloriaeth Cymru, ac ymdrin â meysydd i'w gwella. Mae gwaith ar y gweill, felly, i adfywio 'Ieithoedd sy'n Cyfrif' erbyn mis Medi 2008 ochr yn ochr â gweithredu'r trefniadau diwygiedig o ran y cwricwlwm ac asesu mewn ysgolion.

**Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i leihau maint dosbarthiadau ysgolion cynradd yng Nghymru? (WAQ49904)

**Jane Davidson:** Er 1999, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael llwyddiant mawr yn sicrhau bod dosbarthiadau cynradd yn cynnwys 30 neu lai o ddisgyblion. Ym mis Ionawr 1998, yr oedd 30 y cant o ddisgyblion babanod mewn dosbarthiadau o fwy na 30 disgybl. Yn sgîl cyflwyno'r cyfyngiad statudol o ddosbarthiadau babanod o ddim mwy na 30 disgybl, disgynnodd y ffigur hwn i 2 y cant erbyn 2001 ac mae wedi aros oddeutu'r lefel hon ers hynny. Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu rhai eithriadau dros dro o dan amgylchiadau penodol a'r rhain sydd i gyfrif am y rhan fwyaf o ddosbarthiadau o fwy na 30 sy'n dal i fodoli. O 2001 ymlaen, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi ceisio sicrhau bod dosbarthiadau iau yn cynnwys 30 neu lai o ddisgyblion, ac mae wedi darparu tua £75 miliwn i'r diben hwn rhwng 2001 a 2006. Ym mis Medi 2000, yr oedd 29 y cant o ddisgyblion iau mewn dosbarthiadau o fwy na 30 o ddisgyblion; ym mis Medi 2006 dim ond 3 y cant oedd y ffigur. Maint dosbarthiadau cynradd ar gyfartaledd erbyn hyn yw 24.4.

Bydd cyflwyno'r cyfnod sylfaen yn cael effaith gadarnhaol ar gymarebau oedolyn-disgybl yn y sector babanod a bydd plant iau yn gwneud llawer o'u dysgu mewn grwpiau bach. Hefyd, dylid nodi bod y grant codi cyrhaeddiad a safonau addysgol unigolion yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd a fydd yn gwella'r cymarebau oedolyn-disgybl yn ein hysgolion mwyaf difreintiedig.

Yr wyf yn parhau i ymrwymo i gynnal dosbarthiadau cynradd o 30 neu lai o ddisgyblion. Mae maint dosbarthiadau ar draws y sector cynradd yn parhau i gael ei fonitro i sicrhau bod y cyfyngiad statudol ar faint dosbarthiadau babanod yn cael ei orfodi. Mae angen hefyd inni ystyried cyflwyno cyfyngiad cyfatebol ar faint dosbarthiadau iau yn y dyfodol.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei pholisïau ar gyfer gwella addysg gynradd mewn ardaloedd gwledig? (WAQ49935)

**Jane Davidson:** Mae fy mholisïau bras i wella addysg gynradd yr un mor berthnasol ym mhob ardal o Gymru, boed hwy'n wledig neu'n drefol. Mae pob disgybl yn haeddu ysgolion ag adnoddau da mewn adeiladau sy'n addas i'w diben, wedi eu staffio gan athrawon â chymwysterau da. Gan gydnabod y sialensiau ychwanegol a wynebir gan ysgolion bach ac ysgolion gwledig, mae cyllid ychwanegol gwerth £4.1 miliwn ar gael yn 2006-07, sy'n cael ei bwysoli tuag at ardaloedd mwy gwledig. Ei ddibenion yw talu am gymorth ychwanegol i benaethiaid sydd ag ymrwymiad dysgu yn yr ystafell ddosbarth, helpu ysgolion i weithio gyda'i gilydd i gyflwyno cwricwlwm eang, a datblygu ffocws cymunedol ysgolion—oll gyda'r nod o godi safonau.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllido addysg uwch? (WAQ49936)

**Jane Davidson:** Mae'r sector addysg bellach (AB) wedi gweld cynnydd sylweddol mewn cyllid dros y blynyddoedd diwethaf drwy'r cynllun tâl AB a'r rhaglen strategol buddsoddi cyfalaf. Mae sefydliadau AB yn cael eu cyllido ar sail sy'n cymharu'n deg â'r chweched dosbarth mewn ysgolion erbyn hyn drwy'r system gynllunio ac ariannu genedlaethol.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae'n bwriadu cyflawni nod y Llywodraeth o wneud 'pob ysgol yn addas i'r pwrpas erbyn 2010'? (WAQ49937)

**Jane Davidson:** Fel y nodwyd yn 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith', mae gofyn i bob adeilad ysgol fod yn addas i'w bwrpas ar sail dyddiadau targed y cytunir arnynt gydag awdurdodau lleol unigol. Byddwn yn darparu cyllid o £150 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd hyd at 2009-10 i wella'r stoc adeiladau ysgolion a byddwn yn ymgynghori â'r awdurdodau am yr angen i fuddsoddi y tu hwnt i 2010.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau'r amserlen ar gyfer sefydlu ysgol cyfrifiaduro a gwyddor fathemategol yng Nghymru? (WAQ49938)

**Jane Davidson:** Mae Athrofa Gwyddor Fathemategol a Chyfrifiaduro Cymru yn cael ei chefnogi â darpariaeth o £5.021 miliwn o'r gronfa Ymgeisio yn Uwch. Mae'r arian yn cael ei ddarparu dros bum mlynedd o 2006-07 hyd at 2010-11.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r arweiniad a roddodd i AALlau sy'n ystyried dichonolrwydd ysgolion y mae nifer eu disgyblion yn disgyn? (WAQ49939)

**Jane Davidson:** Mae'r arweiniad yn dweud, er bod yn rhaid cael rhai lleoedd dros ben mewn ysgolion i ymdopi ag amrywiadau yn nifer y disgyblion, fod nifer gormodol o leoedd gwag, sy'n gallu digwydd wrth i niferoedd ddisgyn, yn llyffethair anghynhyrchiol ar adnoddau. Lle mae nifer y lleoedd dros ben yn ormodol, dylai AALlau adolygu eu darpariaeth a, lle bo'n ddichonadwy gwneud hynny, dylent lunio cynigion i gael gwared â hwy, yn enwedig lle mae gan ysgolion lefelau sylweddol o leoedd dros ben. Diffinnir nifer 'sylweddol' o leoedd dros ben fel 25 y cant neu fwy o gapasiti ysgol ac o leiaf 30 o leoedd gwag. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi arweiniad penodol ynglŷn â'r maint lleiaf dichonadwy i ysgolion na phennu maint a ddylai ysgogi adolygiad. Mater i awdurdodau unigol yw penderfynu ar faint priodol a chynaliadwy i ysgolion yn eu hardaloedd.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint dosbarthiadau babanod ac adrannau iau yng Nghymru? (WAQ49940)

**Jane Davidson:** Cyflwynasoch yr un cwestiwn ar 15 Chwefror 2007 (WAQ49497). Fe'ch cyfeiriaf at yr ymateb a ddarperais bryd hynny.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am leoedd gofal plant yng Nghymru? (WAQ49941)

**Jane Davidson:** Rhwng 1999 a 2006, cynyddodd nifer y lleoedd gofal plant cofrestredig o 54,603 i 67,711.

Nod prosiect Genesis Cymru yw darparu 8,500 o leoedd i fuddiolwyr yn ardaloedd Amcan 1 ac Amcan 3 erbyn diwedd mis Mawrth 2008, ac mae prosiect Clybiau Plant Cymru Kids Club (CPCKC) yn anelu at ddarparu 1,700 o leoedd newydd mewn ardaloedd Amcan 1 erbyn diwedd mis Awst 2007.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu cyllid y Cynulliad i ysgolion yn sir Ddinbych? (WAQ49942)

**Jane Davidson:** Polisi Llywodraeth y Cynulliad yw y dylai cyllid i ysgolion gael ei ddarparu'n bennaf drwy'r setliad refeniw i lywodraeth leol, gyda phenderfyniadau am lefelau cyllid ysgolion yn cael eu gwneud gan yr awdurdodau lleol yng ngoleuni anghenion ac amgylchiadau lleol. Mae'r awdurdodau'n atebol i'w hetholwyr am y penderfyniadau a wnânt.

Mae'r cynnydd ar gyfartaledd yng nghyllidebau'r awdurdodau addysg lleol dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn unol â, neu'n uwch na'r cynnydd ar gyfartaledd yn y setliad llywodraeth lleol. Yr oedd cyllideb addysg Sir Ddinbych yn 2006-07 yn £63.5 miliwn, cynnydd o 7.6 y cant o'i gymharu â 2005-06. Mae'r gwariant crynswth y disgybl yn Sir Ddinbych eleni yn £4,357.

Dan y setliad llywodraeth leol ar gyfer 2007-08, bydd Sir Ddinbych yn cael grant cynnal refeniw o £125.4 miliwn, cynnydd o 4.7 y cant o'i gymharu â setliad y llynedd ar ôl addasu am drosglwyddiadau, ac mae'n uwch na chyfartaledd Cymru o 4.4. y cant.

Mae fforymau cyllidebau ysgolion yn galluogi ysgolion ac awdurdodau i drafod materion cyllido lleol. Rhaid i'r awdurdodau lleol ystyried barn eu fforwm cyn pennu eu cyllideb ysgolion bob blwyddyn. Caiff cyllid ei ddosbarthu i ysgolion yn eu cyllidebau dirprwyedig yn unol â fformiwla gyllido leol unigol yr awdurdod, ynghyd ag unrhyw arian grant refeniw sydd wedi'i neilltuo.

Fel y nodwyd yn fy ymateb i adroddiad Pwyllgor y Cynulliad ar Ariannu Ysgolion, mae cais wedi cael ei wneud ar i awdurdodau lleol sy'n gosod cyllideb addysg sy'n wahanol i'w hasesiad addysg seiliedig ar ddangosyddion yn 2007-08 gyflwyno adroddiad am y rhesymau i'w fforwm ysgolion, eu cyngor llawn, a Llywodraeth y Cynulliad. Bydd hyn yn hybu tryloywder cyllido ac atebolrwydd lleol.

Rhwng 2002-03 a 2007-08 yr ydym hefyd wedi darparu arian cyfalaf o bron i £6.385 miliwn i sir Ddinbych ar ffurf grant gwella adeiladau ysgolion seiliedig ar fformiwla. Mae ei grant cyfandaliad ychwanegol o £9 miliwn wedi cael ei ddyrannu rhwng 2005-06 a 2008-09 a bydd yn darparu cyllid ar gyfer un ysgol gynradd newydd a phedwar estyniad/cynllun ailwampio mawr.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddysgu ieithoedd mewn ysgolion yng Nghymru? (WAQ49943)

**Jane Davidson:** Mae astudio iaith dramor fodern yn ofyniad statudol i ddisgyblion 11 i 14 oed yng nghyfnod allweddol 3. Mae'n ofynnol i ysgolion gynnig un neu fwy o ieithoedd swyddogol yr Undeb

Ewropeaidd a chânt, hefyd, gynnig unrhyw iaith y mae galw sylweddol amdani ac y mae gan yr ysgol yr adnoddau i'w darparu. Mae cyfleoedd hefyd i ddisgyblion barhau i astudio iaith dramor fodern y tu hwnt i 14 oed.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i wella'r cyfleoedd i astudio ieithoedd. Mae ein strategaeth ieithoedd genedlaethol, 'Ieithoedd sy'n Cyfrif', yn nodi sut y byddwn yn mynd ati i gynyddu'r niferoedd sy'n dysgu ieithoedd y tu hwnt i 14 oed a chynyddu cydnabyddiaeth ysgolion, disgyblion, rhieni a chyflogwyr o bwysigrwydd dysgu ieithoedd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi'r cyfrifoldeb i CILT Cymru, y Ganolfan Wybodaeth ac Ymchwil ar Ddysgu Ieithoedd, i gynorthwyo gweithrediad y strategaeth. Gyda Llywodraeth y Cynulliad yn darparu £700,000 y flwyddyn iddi, mae CILT yn darparu rhaglen o ddatblygiad proffesiynol i ymarferwyr ac yn cefnogi gwaith peilot ar gyfer ysgolion cynradd mewn partneriaeth ag ysgol uwchradd leol i gynnig iaith dramor. Mae'r ganolfan yn gweithio hefyd gydag ystod o ddarparwyr i ddatblygu opsiynau ehangach o ran dysgu ieithoedd i bobl ifanc 14 i 19 oed.

Yr oedd y gwerthusiad annibynnol yn ddiweddar o waith mewn ysgolion cynradd yn bositif iawn a chadarnhaodd fod disgyblion, athrawon a rhieni wedi croesawu'r cyfle i ddechrau dysgu iaith yng nghyfnod allweddol 2. Ar y sail hon, cytunwyd y byddai adnoddau'n cael eu darparu yn y gronfa ysgolion gwell, o 2008, i alluogi pob ysgol gynradd i gynnig iaith dramor ar sail anstatudol.

Fel y nodwyd yn 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith', mae angen cloriannu ac ystyried sut y gallwn adeiladu ar gryfderau, yn cynnwys y modiwl iaith ym magloriaeth Cymru, ac ymdrin â meysydd i'w gwella. Mae gwaith ar y gweill, felly, i adfywio 'Ieithoedd sy'n Cyfrif' erbyn mis Medi 2008 ochr yn ochr â gweithredu'r trefniadau diwygiedig o ran y cwricwlwm ac asesu mewn ysgolion.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut mae ysgolion yng Nghymru yn codi ymwybyddiaeth ynghylch materion yn ymwneud â iechyd? (WAQ49944)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn cydnabod mor bwysig yw addysgu pobl ifanc mewn amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys sgiliau bywyd a materion yn ymwneud ag iechyd, a fydd yn help i'w datblygu'n unigolion llawnach sy'n gallu ymdopi mewn byd cystadleuol sy'n newid yn gyflym.

Adlewyrchwyd pwysigrwydd hyn yn y penderfyniad i wneud addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn ofyniad statudol o fewn y cwricwlwm sylfaenol i blant 5 i 16 oed o fis Medi 2003.

Mae ABCh mewn ysgolion yn elfen hanfodol mewn addysg gytbwys a chyfannol sy'n paratoi plant a phobl ifanc i fod yn fwy effeithiol yn bersonol, yn iachach ac yn fwy cyfrifol mewn cymdeithas. Yn arbennig, o fewn agwedd gorfforol y fframwaith ABCh, caiff disgyblion help i gynnal eu hiechyd a'u lles corfforol, cynnal eu twf a'u datblygiad a gwybod sut i gadw'u hunain yn saff.

Yn ychwanegol at y cwricwlwm ABC, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo ac yn cefnogi ffyrdd iach o fyw ymysg pobl ifanc drwy nifer o gynlluniau:

**Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru**

Mae 22 o gynlluniau lleol, sydd wedi cael eu hachredu fel rhan o rwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach, ac mae dros 1,300 o ysgolion yn cymryd rhan ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu'r rhwydwaith cynlluniau ysgolion iach drwy ddarparu cyllid a chanllawiau i helpu gwasanaethau iechyd ac addysg sy'n gweithio mewn partneriaeth i sefydlu a rhedeg cynlluniau lleol ysgolion iach ym mhob rhan o Gymru. Mae'r cynlluniau lleol hyn yn helpu ysgolion yn eu hardal i wneud newidiadau o blaid iechyd da. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn achredu cynlluniau lleol fel rhan o rwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach.

**Blas am Oes**

Ym mis Gorffennaf 2005, sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y gweithgor bwyd mewn ysgolion, i archwilio sut mae gwella ansawdd a safonau maeth prydau ysgol, a sut mae sicrhau gweithredu cyson a chydlynol i yrru gwelliannau o ran bwyd a maeth yn ein hysgolion ymlaen. Mae hyn yn berthnasol nid yn unig i giniawau ysgol ond i unrhyw fwyd sy'n cael ei ddarparu i'n plant yn ystod y diwrnod ysgol.

Mae adroddiad y grŵp, 'Blas am Oes', yn cyflwyno ei adolygiad o brydau ysgol a'i gynigion am sut y dylem barhau i yrru ein dull gweithredu ysgol gyfan ymlaen er mwyn gwella'r holl fwyd sydd ar gael yn ystod y diwrnod ysgol. Fe'i lansiwyd er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd ar 29 Mehefin, ochr yn ochr â'r cynllun gweithredu ar fwyd a ffitrwydd.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 31 Hydref. Daeth oddeutu 500 o ymatebion i'r ymarferiad ymgynghori i law—bron i 200 o ymatebion i'r brif ddogfen a mwy na 300 o ymatebion i'r fersiynau plant a phobl ifanc.

Mae'r swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn dadansoddi'r ymatebion hyn yn fanwl. Dengys dadansoddiad cychwynnol fod cefnogaeth sylweddol i bob un o'r 41 o gynigion yn 'Blas am Oes'. Mae'r cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a chaiff ei lansio yn yr haf.

**Bwyd mewn Ysgolion**

Mae datblygu siopau ffrwythau yn cael ei annog fel rhan o rwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach ac mae dros 400 o ysgolion wedi eu sefydlu. Mae arweiniad i sefydlu siopau ffrwythau wedi cael ei gyhoeddi ar y cyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru.

Mae cyfarpar oeri dŵr wedi cael ei ddarparu i dros 300 o ysgolion cynradd ac uwchradd mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Cawsant eu gosod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2004, ar y cyd â Dŵr Cymru. Mae'r llyfryn 'Dewis Dŵr—Canllawiau ar Ddŵr mewn Ysgolion' wedi cael ei anfon i bob ysgol.

Mae canllawiau ar ddefnyddio peiriannau gwerthu iach, 'Dewis Gwerthu Iach', ar gael i bob ysgol.

Ymrwymodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cyllid er mwyn i bob plentyn oedran cynradd sy'n gofrestredig mewn ysgolion cynradd a gynhelir yng Nghymru gael y cyfle i gael brecwast iach, am ddim, yn yr ysgol bob diwrnod. Bwriadwyd y cynllun hwn i helpu i wella iechyd a gallu canolbwyntio plant er mwyn helpu i godi safonau dysgu a chyrhaeddiad. Bydd yn ceisio cynnwys rhieni ond nid yw wedi ei fwriadu i ddisodli brecwast sydd eisoes yn cael ei ddarparu. Bydd yn caniatáu i'r rhai nad ydynt, am ba reswm bynnag, wedi cael brecwast, i gael brecwast yn yr ysgol. Cynllun dewisol yw darparu brecwast am ddim. Mae'r adborth o du'r rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun wedi bod yn bositif iawn ac mae ysgolion yn gweld y manteision i ddisgyblion ac i'r ysgol gyfan.

Ar sail y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael oddi wrth yr awdurdodau addysg lleol, cadarnhaodd cyfanswm o 559 (35 y cant) o ysgolion eu bod wedi dechrau gweini brecwast erbyn diwedd tymor yr hydref 2006. Mae 206 yn rhagor o ysgolion i fod i ddechrau cymryd rhan erbyn diwedd tymor yr hydref 2007. Rhydd hyn gyfanswm o 765 (47 y cant) o ysgolion cynradd ar draws Cymru. Mae'r nifer hwn yn dal i gynyddu wrth i ragor o ysgolion ddysgu am fanteision niferus cymryd rhan yn y cynllun hwn.

Mae bws coginio wedi cael ei noddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Ymddiriedolaeth Addysgol Design Dimension, fel rhan o'i rhaglen waith a amlinellwyd yng nghynllun gweithredu 'Bwyd a Ffitrwydd—Hybu Bwyta'n Iach a Gweithgarwch Corfforol i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru'. Ôl-gerbyd teithiol sydd wedi'i gynllunio'n arbennig yw'r bws coginio ac mae'n darparu pedair cegin gyflawn ynghyd ag athrawon cymwysedig. Mae'r bws yn ymweld ag ysgolion ac yn darparu gwersi coginio ymarferol i ddisgyblion ac un sesiwn hyfforddi athrawon ym mhob ysgol. Defnyddir un sesiwn ym mhob lleoliad hefyd i helpu rhieni plant ifanc i ddatblygu eu sgiliau coginio.

Bydd yn canolbwyntio ar ymweld ag ysgolion mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf sy'n rhan o rwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach ac sydd eisoes yn gweithio ar fwyta'n iach a gweithgarwch corfforol.

**Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion**
Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd (darparwyd £6.9 miliwn hyd yma ac mae £2.65 miliwn pellach wedi cael ei rwymo ar gyfer 2007-08) i arwain y gwaith o roi'r cynllun gweithredu addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion i Gymru ar waith. Elfen ganolog y gwaith hwn yw sefydlu canolfannau datblygu sy'n dod â chonsortia lleol ynghyd (yn cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd, colegau, darparwyr addysg uwch, canolfannau hamdden a chlybiau chwaraeon) i wneud y defnydd gorau o gyfleusterau ac i rannu arferion da ac arbenigedd mewn ffordd a fydd yn codi safonau ym maes addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion. Mae 73 o ganolfannau datblygu ar draws Cymru ar hyn o bryd, 60 yn cael eu hariannu'n llwyr, ac mae o leiaf ddwy yn ardal pob awdurdod lleol. Y targed yw i bob ysgol fod yn rhan o bartneriaeth addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion erbyn 2010. Mae pob AALl wedi penodi cyd-drefnydd addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion i gefnogi'r canolfannau datblygu a lledaenu arferion da.

Mae amryw o brosiectau arbenigol yn darparu cymorth hyfforddi i athrawon (darparwyd rhyw 10,000 o gyfleoedd datblygu hyd at fis Mawrth 2007), ac mae canllawiau ymarferol (hyfforddiant ac adnoddau) wedi cael eu datblygu i helpu athrawon yn y meysydd hynny o fewn addysg gorfforol sy'n fwy anodd yn dechnegol. Mae canllawiau ar ymarfer yn gysylltiedig ag iechyd (elfen allweddol o ofynion y cwricwlwm cenedlaethol o ran addysg gorfforol) wedi cael eu datblygu hefyd. Mae gan y cynllun addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion gysylltiadau cryf â chynllun ysgolion iach Llywodraeth y Cynulliad. Anogir pob ysgol sy'n cymryd rhan mewn partneriaethau addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion i ddatblygu polisi ar ffyrdd iach a gweithgar o fyw, yn ymgorffori holl agweddau'r ysgol o'r staff i'r disgyblion, i'r cwricwlwm a'r amgylchedd. Mae cysylltiadau pendant hefyd rhwng y cynllun addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion a chynlluniau polisi strategol ehangach a rhaglenni trawsbynciol y Cynulliad i annog cymdeithas iach, fwy ffit, fel y nodwyd yn 'Lles yng Nghymru', 'Dringo'n Uwch' a'r strategaeth ar fwyd a ffitrwydd.

Mae Estyn yn darparu adroddiadau monitro rheolaidd am weithrediad y cynllun gweithredu ar addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion. Deuai'r adroddiad diwethaf, fis Gorffennaf 2006, i'r casgliad bod y cynllun yn gwneud cynnydd da a'i fod yn cael effaith sylweddol ar ansawdd y ddarpariaeth, y cyfleoedd a'r safonau addysg gorfforol mewn canolfannau datblygu yng Nghymru.

**Atal Ysmygu**
O ran atal ysmygu, mae ein clybiau Bygiau Baco! yn annog pobl ifanc yng Nghymru, rhwng 8 ac 11 oed, i fyw bywydau di-fwg. Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at blant yn eu cartrefi, gan recriwtio drwy ysgolion a sefydliadau priodol eraill. Mae'r aelodau'n mwynhau amryw o weithgareddau a digwyddiadau yn cynnwys cystadlaethau, gwobrau, cwisiau a chylchlythyr chwarterol.

Yn yr ysgol uwchradd, cynigir y cyfle i ddisgyblion i gymryd rhan yn y gystadleuaeth dosbarthiadau di-fwg ym mlynyddoedd 7 ac 8 (oedran 11-13). Mae hon yn rhan o gynllun Ewropeaidd sy'n cynnwys 14 o wledydd ar hyn o bryd. Mae'r disgyblion yn cystadlu fel dosbarth, ac yn addunedu i beidio ag ysmygu dros gyfnod pum mis y gystadleuaeth. Mae cynllun tynnu gwobrau yn dyfarnu gwobrau ar ffurf arian i'r ysgol ar ôl tri, pedwar a phum mis. Cynhaliwyd y gystadleuaeth am y tro cyntaf yng Nghymru yn 1997-98.

Bydd rhaglen newydd, ASSIST, yn cael ei chyflwyno mewn ysgolion uwchradd yn y flwyddyn nesaf. Rhaglen cymorth gan gyfoedion yw hon a chafodd ei datblygu a'i threialu'n llwyddiannus gan brifysgolion Caerdydd a Bryste.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr ysgolion a gaeodd er 1999? (WAQ49963)

**Jane Davidson:** Mae cyfanswm o 86 o ysgolion wedi cau er 1999, yn cynnwys 11 ysgol feithrin. Yr wyf wedi rhestru'r ysgolion unigol isod, yn ôl AALl. Nid yw'r rhestr yn cynnwys ysgolion iau a babanod sydd wedi uno, cau ysgolion arbennig nac achosion lle mae ysgol wedi cael ei disodli gan ysgol newydd ar yr un safle. Dangosir yr ysgolion meithrin sydd wedi cau ar wahân.

| AALl | BLWYDDYN | YSGOL |
|---|---|---|
| Ynys Môn | | Dim un |
| Blaenau Gwent | 1999 | Glanyrafon (uwchradd) |
| | 2000 | Cwmtyleri iau |
| | 2001 | Rasa cynradd* |
| | 2002 | Areal cynradd* |
| | 2003 | Cwmcelyn babanod |
| | 2004 | Tŷ'r Graig cynradd |
| | | Brynhyfryd cynradd |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2003 | Fronwen cynradd |
| | | Tynewydd iau |
| Caerffili | 2002 | Glanynant babanod |
| | 2004 | Cwmsyfiog cynradd* |
| | | Tir-phil cynradd* |
| | 2005 | Bedwellte* (uwchradd) |
| Caerdydd | 2004 | Viriamu Jones cynradd* |
| Sir Gaerfyrddin | 1999 | Bethlehem cynradd* |
| | | Gwynfe cynradd |
| | 2001 | Myddfai cynradd* |
| | 2003 | Alltwalis cynradd* |
| | | Llanfihangel yr Arth cynradd* |
| | | Cwm-bach cynradd* |
| | | Llangynin cynradd* |
| | 2004 | Llanddowror cynradd* |
| | | Henllan Amgoed cynradd* |
| | | Garnant cynradd |
| | | Glanaman cynradd |
| | 2006 | Trap cynradd |
| | 2007 | Cwmgwili cynradd* |
| Ceredigion | 2006 | Brynherbert cynradd |
| | | Ferwig cynradd* |
| Conwy | | Dim un |
| Sir Ddinbych | 2000 | Nantyglyn cynradd |
| | 2004 | St Winefrides cynradd (Llanelwy)* |
| Sir y Fflint | | Dim un |
| Gwynedd | | Dim un |
| Merthyr Tudful | 1999 | Graig Bedlinog babanod* |
| | 2002 | Pentre-bach babanod* |
| | 2005 | Vaynor Penderyn*(Uwchradd) |
| Sir Fynwy | 2003 | Llanelen cynradd |
| | 2005 | St David's iau* (Y Fenni) |
| | | Croesonnen babanod*(Y Fenni) |
| | | Park Street babanod* (Y Fenni) |
| | 2006 | Clydach cynradd* |
| | | Daren Felen cynradd* |
| Castell-nedd Port Talbot | | Dim un |
| Casnewydd | | Dim un |
| Sir Benfro | 1999 | Tyddewi cynradd |
| | 2000 | Ynys Bŷr cynradd |

| | | |
|---|---|---|
| | | Maenordeifi cynradd* |
| | | Bwlch-y-groes cynradd* |
| | 2001 | Pen-ffordd cynradd |
| | 2002 | Dinas cynradd* |
| | 2003 | Trewyddel cynradd* |
| | 2004 | Tredafydd cynradd |
| | | Blaenffos cynradd* |
| | | Hermon cynradd* |
| | 2006 | Albion Square meithrin a babanod |
| | | Penalun cynradd* |
| Powys | 2005 | Libanus cynradd* |
| | | Trecastell cynradd* |
| | 2006 | Sarn, Eglwys Loegr, gwirfoddol a gynorthwyir, cynradd |
| Rhondda Cynon Taf | 1999 | Dwn-rhefn cynradd |
| | | Blaenrhondda cynradd |
| | | Blaen-cwm cynradd |
| | | Hendrefadog babanod |
| | 2005 | Treherbert babanod |
| | 2006 | Cynon babanod* |
| | | Newtown cynradd* |
| | | Blaenclydach babanod* |
| | | Blaenllechau babanod* |
| | | Trefforest cynradd* |
| | | Graig y Wion cynradd* |
| | | Nantgarw babanod* |
| Abertawe | 2001 | Dinefwr* (uwchradd) |
| | | Penlan y Bechgyn* (uwchradd) |
| | 2006 | Garnswllt cynradd* |
| Tor-faen | 2001 | Park Terrace cynradd* |
| | | Cwmbrân Uchaf babanod* |
| | 2006 | Pen-twyn cynradd* |
| Bro Morgannwg | 2004 | Penarth, yr Eglwys yng Nghymru, cynradd |
| Wrecsam | 2004 | The Groves (uwchradd)* |

**Ysgolion Meithrin a Gaewyd (Ni chaeodd y mwyafrif o AALl ddim un)**

| AALl | BLWYDDYN | YSGOL |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 2003 | Church Square meithrin |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2001 | Nant-y-moel meithrin* |
| | 2003 | Cwm Ogwr meithrin* |
| | | Pen-coed meithrin |
| Caerffili | 2002 | Gilfach Fargoed meithrin |
| Caerdydd | 2005 | Vachell meithrin |
| Merthyr Tudful | 2006 | Ynys Owen meithrin* |
| Rhondda Cynon Taf | 2003 | Glynhafod meithrin* |
| | | Tir Gwaid meithrin |
| | 2006 | Hirwaun meithrin* |
| Abertawe | 2006 | Bryn meithrin* |

* penderfynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Penderfynir ar gynigion i gau ysgolion na cheir gwrthwynebiadau iddynt gan y corff sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r cynigion (yr AALl fel arfer).

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn esbonio a oes ganddi'r pŵer neu unrhyw fwriad i gyhoeddi arweiniad i atal awdurdodau lleol yng Nghymru rhag codi tâl ar fyfyrwyr dros 16 oed am deithio i'r ysgol neu goleg? (WAQ49994)

**Jane Davidson:** Darpariaethau adrannau 509, 509AA, 509AB, 509AC a 509A o Ddeddf Addysg 1996 sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol cyfredol o ran dyletswyddau awdurdodau lleol parthed cludiant i'r ysgol neu'r coleg i fyfyrwyr o'u cartref.

Dan y fframwaith deddfwriaethol cyfredol, mae darparu cymorth ariannol tuag at gostau teithio dysgwyr sydd dros oed ysgol gorfodol yn ddewisol. Mae gan AALlau ddyletswydd statudol dan adran 509AA(1) o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd) i gynhyrchu a chyhoeddi datganiadau polisi cludiant, sy'n pennu pa drefniadau y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol o ran darparu cludiant a chymorth i ddysgwyr 16-19 oed.

Mae AALlau dan ddyletswydd i ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru wrth baratoi eu datganiadau polisi. Hefyd, mae gofyn i awdurdodau lleol sicrhau bod y trefniadau cludiant i ddysgwyr sy'n cael addysg neu hyfforddiant amser llawn mewn colegau addysg bellach a sefydliadau eraill mor ffafriol ag ydynt i ddysgwyr sy'n cael addysg mewn ysgolion a gynhelir gan yr AALl i sicrhau cyfle cyfartal, fel y pennwyd yng nghylchlythyr arweiniad y Cynulliad Cenedlaethol 05/07.

Dan adran 509AA(9), gall y Cynulliad, os yw o'r farn y byddai'n ddoeth gwneud hynny, gyfarwyddo AALl i wneud trefniadau i ddarparu cludiant neu i ddarparu cymorth ariannol, lle nad yw'r trefniadau hynny wedi cael eu pennu yn natganiadau polisi cludiant yr AALl. Dan amgylchiadau felly, byddai'n rhaid i'r AALl gydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwnnw.

Mae Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn cynnwys darpariaethau pwysig o ran siwrneiau dysgwyr sy'n rhoi'r pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud deddf sy'n cwmpasu materion cludiant o'r cartref i'r ysgol a theithio ôl-16. Mae'r pŵer newydd yn golygu bod modd newid y gyfraith yn Neddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd) am set gynhwysfawr o ddeddfau Cymreig i wasanaethu fel fframwaith i bolisi a lunnir yng Nghymru. Bydd hyn yn ymddangos yn rhaglen ddeddfwriaethol y Cynulliad ar ôl etholiadau mis Mai 2007. Mae union amseriad a chwmpas cynigion o'r fath, yn cynnwys hawliau teithio dysgwyr yn y grŵp oedran 16-19, yn faterion i Lywodraeth nesaf y Cynulliad eu hystyried.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba mor gyflym yr ymatebodd i gwestiynau ysgrifenedig yn 2006? (WAQ49227) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Trefnydd.***

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ49222.

**Nick Bourne:** Pa ystyriaeth a roddir i ddefnyddio gwasanaeth trên Eurostar ar gyfer ymweliadau Gweinidogion a swyddogion â Brwsel, yn hytrach na chludiant awyr? (WAQ49534) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe'ch cyfeiriaf at WAQ49523.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r ymweliadau tramor a wnaed gan swyddogion yn ei adran yn y flwyddyn ddiwethaf, ynghyd â'r rheswm dros yr ymweliadau hynny. (WAQ49535) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Trefnydd.***

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ49522.

**Nick Bourne:** A yw perchennog cartref sydd wedi ei leoli mewn ardal gorlifdir TAN 15 ac sydd, o'r herwydd, yn destun cyfyngiadau cynllunio newydd, yn gallu hawlio disgownt oddi ar y dreth gyngor? (WAQ49909)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Nid oes darpariaeth i berchennog cartref hawlio disgownt oddi ar y dreth gyngor am eiddo sydd mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd. Mae'r cyfyngiadau yn TAN15 yn effeithio'n bennaf ar ddatblygiadau newydd, yn hytrach na rhai presennol. Nod y canllawiau yw cyfeirio datblygiadau newydd oddi wrth yr ardaloedd hynny lle mae perygl llifogydd mawr.

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drosglwyddo swyddogaethau Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ49914)

**Mick Bates:** Sawl cais Tir Gofal newydd a dderbyniwyd cyn belled ers trosglwyddo swyddogaethau Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ49915)

**Mick Bates:** Sawl cais Tir Gofal newydd sy'n dal heb eu prosesu ers trosglwyddo swyddogaethau Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ49916)

**Mick Bates:** Faint o amser a gymer y dagfa o geisiadau Tir Gofal i'w chlirio yn dilyn trosglwyddo swyddogaethau Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ49917)

**Mick Bates:** Sawl cais Tir Gofal newydd yr ymwelwyd â hwy neu a fapiwyd gan Swyddogion y Cynulliad ers trosglwyddo swyddogaethau Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ49918)

**Mick Bates:** A fu unrhyw oedi gyda thaliadau Tir Gofal yn sgil trosglwyddo swyddogaethau Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ49922)

**Mick Bates:** Sut mae'r Gweinidog yn sicrhau nad oes unrhyw ddata pwysig yn cael ei golli wrth drosglwyddo swyddogaethau Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ49919)

**Mick Bates:** Pa waith a wnaed i sicrhau bod systemau mapio Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gydnaws â'i gilydd cyn dechrau trosglwyddo swyddogaethau Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ49920)

**Mick Bates:** A yw'r Gweinidog yn gallu tawelu pryder unigolion a mudiadau na fydd unrhyw oedi gyda phrosesu ceisiadau na thaliadau yn sgîl trosglwyddo swyddogaethau Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ49921)

**Carwyn Jones:** Cyhoeddodd y Prif Weinidog ar 30 Tachwedd 2004 y dylai gweinyddiaeth y cynllun Tir Gofal gael ei throsglwyddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru, a chafodd hyn ei gwblhau'n llwyddiannus ar 16 Hydref 2006.

Daeth 1,444 o geisiadau newydd i'r cynllun Tir Gofal i law, ac nid yw'r rhain wedi cael eu prosesu eto. Nid trosglwyddo gweinyddiaeth y cynllun Tir Gofal i Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd i gyfrif am hyn

ond, yn hytrach, mae'r ceisiadau hyn yn dal i fod heb gael eu prosesu gan fod goblygiadau cyllideb y Cynulliad a'r cynllun datblygu gwledig newydd i Tir Gofal yn dal i gael eu hystyried. Unwaith y bydd y sefyllfa hon wedi cael ei datrys, a bod y cyllid ar gyfer y dyfodol yn glir, caiff ceisiadau newydd eu prosesu a bydd swyddogion y Cynulliad yn ymgymryd ag unrhyw fapio neu ymweliadau sy'n ofynnol.

Mae hawliadau am daliadau dan drefniadau presennol Tir Gofal yn cael eu prosesu yn unol â'r gofynion a nodwyd yn y cytundebau unigol, gan ystyried gofynion newydd rheoliad rheoli datblygu gwledig y Cymundeb Ewropeaidd sy'n pennu'r gwiriadau dilysu ac arolygu cyn gwneud taliadau. Mae'r cytundebau hyn yn cael eu prosesu cyn gynted â phosibl, ond maent yn golygu cryn lawer o waith oherwydd gofyniad y comisiwn i drawswirio cyn rhyddhau taliadau. Er mis Ionawr eleni, mae 571 o hawliau rheoli a gwaith cyfalaf wedi cael eu prosesu, sef cyfanswm o £1.31 miliwn. Mae'r Is-adran Taliadau Gwledig, staff Tir Gofal, yn blaenoriaethu'r gwaith ar daliadau, ac mae hawliadau cymwys, heb anghysonderau, yn cael eu prosesu i'w talu wrth iddynt ddod i law. Er mwyn prosesu hawliadau mor effeithlon â phosibl, mae angen i ffermwyr ymateb i gwestiynau ynglŷn ag anghysonderau trawswirio. Yr ydym yn disgwyl am ymateb gan fwy na 200 o ffermwyr am anghysonderau o'r fath ar hyn o bryd.

Lleihawyd y perygl o golli data pwysig wrth drosglwyddo'r dyletswyddau gweinyddol yn ymwneud â Tir Gofal i Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r eithaf gan i'r holl ddata a'r systemau gael eu trosglwyddo yn eu cyfanrwydd. Mae'r broses hon wedi cael ei chwblhau erbyn hyn ac mae'r data pwysig i gyd wedi cael ei drosglwyddo.

Yr oedd systemau mapio Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cael eu rheoli gan Lywodraeth Cynulliad Cymru cyn i ddyletswyddau gweinyddol Tir Gofal gael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae hynny'n parhau. Nid oes unrhyw broblemau wedi codi ynglŷn â chytunedd systemau yn ystod y trosglwyddo.

Nid oes unrhyw oedi o ran prosesau ceisiadau na thaliadau wedi codi o ganlyniad i drosglwyddo gweinyddiaeth y cynllun Tir Gofal i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac ni ragwelir unrhyw oedi o'r fath yn y dyfodol.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae'n ei wneud i annog adwerthwyr i stocio cynnyrch lleol ledled Cymru? (WAQ49970)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhedeg rhaglenni sy'n anelu at helpu cynhyrchwyr bwydydd a diodydd o Gymru i gael eu cynnyrch wedi ei restru'n genedlaethol gan yr adwerthwyr mawr a sicrhau ei fod yn cael ei gadw ar y rhestrau hynny. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad hefyd â chynrychiolwyr yr archfarchnadoedd allweddol i sicrhau cynifer â phosibl o gyfleoedd i stocio cynnyrch lleol o Gymru, fel y gwelwyd yn nigwyddiad Tesco, 'Cwrdd â'r Prynwr', yng ngorllewin Cymru'n ddiweddar.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn a wnaeth i hyrwyddo'r cysyniad o filltiroedd bwyd yng Nghymru? (WAQ49976)

**Carwyn Jones:** Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gydag adwerthwyr cadwyn a'r sector gwasanaethu i annog darparu rhagor o gynnyrch bwyd a diod lleol a rhanbarthol o Gymru, gan leihau milltiroedd bwyd drwy hynny. Mae lleihau milltiroedd bwyd drwy ddarparu fforymau i ddod â chynhyrchwyr a defnyddwyr lleol ynghyd hefyd yn rhan o ddiben cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i wyliau bwyd a marchnadoedd ffermwyr.

**Leanne Wood:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch adfer chwarel Brofiscin, ger y Groes-faen yn Rhondda Cynon Taf? (WAQ49977)

**Carwyn Jones:** Mae fy swyddogion o Is-adran Diogelu'r Amgylchedd ac Ansawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cysylltiad rheolaidd ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r Cynulliad yn dal i gyllido'r asiantaeth i ymgymryd ag ymchwiliadau yn chwarel Brofiscin. Disgwylir am adroddiad a fydd yn sail i benderfyniadau ynglŷn â'r dull adfer mwyaf priodol.

**Leanne Wood:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod Monsanto a'i gwmnïau olynol yn cael eu dwyn i gyfrif am halogi hanesyddol ar safleoedd yng Nghymru? (WAQ49979)

**Carwyn Jones:** Fe'ch cyfeiriaf at fy natganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 20 Mawrth. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd, drwy ei chyfreithwyr, yn mynd ar drywydd opsiynau i ddynodi atebolrwydd am halogi hanesyddol ar safleoedd yng Nghymru.

**Leanne Wood:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod y rhai a fu'n gyfrifol am y llygru yn chwarel Brofiscin yn cael eu dal yn gyfrifol am ei hadfer? (WAQ49980)

**Carwyn Jones:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i'r cwestiwn blaenorol (WAQ49979), a chadarnhaf fod Asiantaeth yr Amgylchedd yn mynd ar drywydd atebolrwydd mewn perthynas â chwarel Brofiscin.

**Leanne Wood:** Pa gyngor y mae'r Gweinidog wedi ei dderbyn ynghylch effaith achos methdaliad cyfredol Solutia Inc, a glywir yn Manhattan ar ymdrechion Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i ddwyn cwmnïau i gyfrif am lygru hanesyddol yng Nghymru? (WAQ49995)

**Carwyn Jones:** Mae fy natganiad diweddar, ynghyd ag atebion blaenorol heddiw, yn cadarnhau bod cyfreithwyr Asiantaeth yr Amgylchedd yn ceisio cynrychiolaeth gyfreithiol ynglŷn â materion atebolrwydd drwy'r sianelau priodol.

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gydag Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn sicrhau bod cwyn ffurfiol yn cael ei chyflwyno yn erbyn asedau grŵp Monsanto ynghylch llygredd yn chwarel Brofiscin cyn y dyddiad cau, sef diwedd Mawrth? (WAQ50000)

**Carwyn Jones:** Fe'ch cyfeiriaf at fy natganiad ysgrifenedig ar 20 Mawrth ac atebion blaenorol heddiw. Gallaf gadarnhau bod cyfreithwyr Asiantaeth yr Amgylchedd yn ceisio cynrychiolaeth gyfreithiol ynglŷn â materion atebolrwydd drwy'r sianelau priodol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

**Leanne Wood: A** wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, i gynnal arolygon neu asesiadau polisi gan restru bob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ48879)

**Leanne Wood:** Yn dilyn Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad 47892, 47893, 47894, 47895, 47896, 47897,47899 a 47900, a wnaiff y Gweinidog hefyd ddarparu'r un manylion ar gyfer pob contract gydag ymgynghorwyr, nid gydag ymgynghorwyr rheoli yn unig. (WAQ48881)A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, i ystyried, cynnal neu asesu ymgyrchoedd marchnata neu hysbysebu gan restru bob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ48880)

**Leanne Wood:** Yn dilyn Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad 47892, 47893, 47894, 47895, 47896, 47897,47899 a 47900, a wnaiff y Gweinidog hefyd ddarparu'r un manylion ar gyfer pob contract gydag ymgynghorwyr, nid gydag ymgynghorwyr rheoli yn unig? (WAQ48881)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.*

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Gan nad oedd ymateb pellach erbyn diwedd yr ail Gynulliad, caiff yr ateb dros dros isod ei drin fel yr ateb terfynol.

Nid yw eich cais yn cynnwys digon o wybodaeth i fy swyddogion allu darganfod a nodi'r wybodaeth yr ydych yn chwilio amdani. Byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn egluro eich diffiniad o "ymgynghorwyr". Er enghraifft, nid yw contractau 'Ymchwil' yn cael eu cofnodi fel 'ymgynghoriaeth' ac ni fyddai contractau lle mae elfen o gyflwyno gwasanaeth gan y contractiwr yn cael eu cofnodi fel 'ymgynghoriaeth' chwaith.

A fyddech cystal â rhoi disgrifiad pellach am y math o wybodaeth yr ydych am ei chael er mwyn inni ei ddarganfod. Gallai fod yn ddefnyddiol yn hyn o beth pe byddech, er enghraifft, yn gallu disgrifio eich diddordebau. Unwaith y byddwch wedi darparu'r wybodaeth ychwanegol hon, byddwn wedyn yn gallu prosesu eich cais. Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn gallu ateb erbyn 30/01/2007.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba mor gyflym yr ymatebodd i gwestiynau ysgrifenedig yn 2006? (WAQ49220) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Trefnydd.***

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ49222.

**Nick Bourne:** Faint a wariwyd gan adran y Gweinidog ar gyhoeddusrwydd yn 2006? (WAQ49255)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.*

**Sue Essex:** Gallaf gadarnhau na wariodd fy adran ddim ar gyhoeddusrwydd yn 2006. Yn ogystal, ni chafodd unrhyw gyhoeddusrwydd ei gaffael gan unrhyw asiantaeth ar wahân i'r is-adran gyfathrebu ganolog yn ystod y cyfnod hwn ychwaith.

**Jonathan Morgan:** Yn dilyn yr ateb a roddwyd i WAQ47077, a wnaiff y Gweinidog roi dadansodiad o wariant Llywodraeth Cynulliad Cymru ar a) recriwtio a b) hysbysiadau cyhoeddus? (WAQ49278)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.*

**Jane Hutt:** Gwariodd Llywodraeth y Cynulliad £455,164 ar recriwtio yn 2005-06 a £1,036,680 ar hysbysiadau cyhoeddus (£914,501 ar hysbysiadau cyhoeddus priffyrdd a £122,179 ar hysbysiadau cyhoeddus eraill).

**Jonathan Morgan:** Yn dilyn yr ateb a roddwyd i WAQ47077, a wnaiff y Gweinidog nodi gwariant blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar yr holl fathau o gyfathrebu na chafodd ei gaffael gan yr Is-adran Gyfathrebu Ganolog? (WAQ49279)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.*

**Jane Hutt:** Yn yr un cyfnod, £20,245,000 oedd cyfanswm y gwariant ar gyfathrebu a gaffaelwyd y tu allan i'r Is-adran Ganolog Cyfathrebu. Mae'r dadansoddiad, gydag enghreifftiau o ymgyrchoedd cyfathrebu, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Menter, Arloesi a Rhwydweithiau | £15,880,00 (marchnata masnach a buddsoddi, twristiaeth busnes, golff a digwyddiadau, marchnata twristiaeth yn rhyngwladol, marchnata twristiaeth yn y DU, cymorth busnes/entrepreneuriaeth/arloesi, e-Gymru, cwpan Ryder, trafnidiaeth) |
| Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | £450,000 (brecwast am ddim i bob disgybl ysgol gynradd, ymestyn hawliau, ILA Wales, Cymraeg i Oedolion, cyllid myfyrwyr Wales, marchnata cymorth busnes) |
| Yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad | £2,207,000 (hyrwyddo bwyd-amaeth, TB mewn gwartheg, hyrwyddo Cyswllt Ffermio) |
| Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon | £347,000 (Cymal, CADW) |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | £1,300,000 (Her Iechyd Cymru, iechyd rhywiol, Cefnau Cymru) |
| Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio | £61,000 (diogelwch rhag tân, tai, llinell gymorth cyffuriau ac alcohol, CAFCASS Cymru) |

(Talgrynnwyd y ffigurau i'r £1,000 agosaf)
(Mae 'cyfathrebu' i'r diben hwn yn cynnwys eitemau fel ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus a hyrwyddo Cymru fel lleoliad i fuddsoddi ynddo ac fel cyrchfan i dwristiaid)

**Nick Bourne:** Pa ystyriaeth a roddir i ddefnyddio gwasanaeth trên Eurostar ar gyfer ymweliadau Gweinidogion a swyddogion â Brwsel, yn hytrach na chludiant awyr? (WAQ49524) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe'ch cyfeiriaf at WAQ49523.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r ymweliadau tramor a wnaed gan swyddogion yn ei adran yn y flwyddyn ddiwethaf, ynghyd â'r rheswm dros yr ymweliadau hynny? (WAQ49525) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Trefnydd.***

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ49522.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cytundeb polisi rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Sir y Fflint? (WAQ49945)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Yn 2004-05, cwblheais gytundeb polisi gyda Chyngor Sir y Fflint a nodai'r gwelliannau yr oedd yr awdurdod wedi cytuno gyda Llywodraeth y Cynulliad y byddai'n eu cyflawni erbyn 2007. Wedi hynny cafodd sir y Fflint randaliad cyntaf y grant cymell perfformiad, sef cyfanswm o £1,428,476.

Yn 2005-06, dangosodd sir y Fflint berfformiad boddhaol yn erbyn y mesurau yn ei gytundeb polisi a chafodd grant cymell perfformiad pellach o £1,468,919.

Mae'r swyddogion wedi cwblhau adolygiad 2006-07 o berfformiad sir y Fflint ac wedi talu trydydd rhandaliad y grant cymell perfformiad, sydd yn £1,464,862. Mae'r awdurdod wedi dangos gwelliant cyson yn erbyn y cerrig milltir, sef gostwng nifer y plant sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster, effeithlonrwydd ynni, gostwng nifer yr oedolion sy'n wynebu oedi wrth drosglwyddo gofal, a gostwng y nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n gorfod newid ysgol.

**Jeff Cuthbert:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnig i gyflwyno cynllun newydd rhyddhad ardrethi ar gyfer busnesau bach i Gymru gyfan? (WAQ49946)

**Sue Essex:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cyflwyno deddfwriaeth i ddisodli'r cynllun rhyddhad ardrethi gwledig gyda chynllun rhyddhad ardrethi ar gyfer busnesau bach o 1 Ebrill 2007. Bydd y cynllun newydd yn decach na'r hen un, gan fod yr hawl i ryddhad yn amrywio yn ôl lleoliad daearyddol dan y cynllun hwnnw. Dan y cynllun newydd, bydd yr un meini prawf yn gymwys i fusnesau ar draws Cymru, ni waeth ymhle mae'r busnes wedi cael ei leoli. Bydd yn golygu y bydd tua hanner yr holl fusnesau yng Nghymru yn cael rhyw ryddhad ar eu hardrethi, a bydd y rhan fwyaf o swyddfeydd post yng Nghymru yn cael rhyddhad o 50 y cant neu 100 y cant.

Disgwylir i gyfanswm y rhyddhad y dylai busnesau yng Nghaerffili ei gael ym mlwyddyn gyntaf y cynllun gynyddu i oddeutu £589,500 o'r £82,000 y disgwylir iddynt ei gael ym mlwyddyn olaf yr hen gynllun rhyddhad ardrethi gwledig.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y grant amddifadedd a ddyfernir i gynghorau lleol yng Nghymru? (WAQ49947)

**Sue Essex:** Mae'r symiau y bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn eu cael ar ffurf grant amddifadedd yn 2007-08 wedi'u rhestru isod:

| **Awdurdod Lleol** | **£000oedd** |
|---|---|
| Ynys Môn | 508 |
| Gwynedd | 494 |
| Conwy | 174 |
| Sir Ddinbych | 169 |
| Sir y Fflint | 225 |
| Wrecsam | 322 |
| Powys | 48 |
| Ceredigion | 107 |
| Sir Benfro | 366 |
| Sir Gaerfyrddin | 1,195 |
| Abertawe | 969 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2,359 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 758 |
| Bro Morgannwg | 167 |
| Rhondda Cynon Taf | 4,223 |
| Merthyr Tudful | 2,146 |
| Caerffili | 2,466 |
| Blaenau Gwent | 2,625 |
| Tor-faen | 452 |
| Sir Fynwy | 0 |
| Casnewydd | 716 |
| Caerdydd | 1,511 |
| Cyfanswm | 22,000 |

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae'n bwriadu cymell gweithredu adolygiad Beecham? (WAQ49948)

**Sue Essex:** Yr ydym yn darparu cyllideb o £42 miliwn dros y tair blynedd nesaf yn gefn i weithredu ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Beecham. Bydd hyn yn cyllido rhaglen lawn o gymorth i gyrff gwasanaethau cyhoeddus drwy Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru, Gwerth Cymru a chronfa wella 'Creu'r Cysylltiadau'.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei pholisïau ar gyfer darparu gwasanaethau lleol yn well? (WAQ49949)

**Sue Essex:** Mae 'Cyflawni Ar Draws Ffiniau', a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2006, yn nodi'r camau gweithredu y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu eu cymryd yng ngoleuni Beecham, a bydd y rhain yn cyflymu'r cynnydd tuag at ein nod o weddnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cyflwyno a phrofiad pawb sy'n eu defnyddio. Yr ydym ar hyn o bryd yn ymgynghori ynghylch byrddau gwasanaethau lleol, a fydd â rôl allweddol yn integreiddio gwasanaethau lleol ac yn gwella'r cyflwyno.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithiolrwydd y gwasanaethau llywodraeth leol a ddarperir yn Nwyrain De Cymru? (WAQ49950)

**Sue Essex:** Mae'n anodd cyffredinoli am wasanaethau sy'n cael eu darparu gan chwe awdurdod lleol. Mae Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thor-faen i gyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran eu cytundebau polisi eleni ac wedi cael grantiau cymell perfformiad o fwy na £5 miliwn mewn cydnabyddiaeth o'r gwelliannau y maent wedi'u cyflawni o ran cyflwyno gwasanaethau.

Un o'r egwyddorion allweddol sy'n sail i 'Greu'r Cysylltiadau' a 'Chyflawni Ar Draws Ffiniau', ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r adolygiad gan Syr Jeremy Beecham o'r ffordd y caiff gwasanaethau lleol eu cyflwyno yng Nghymru, yw y bydd canlyniadau gwasanaethau cyhoeddus ar eu gorau pan fydd darparwyr gwasanaethau yn cydweithredu â'i gilydd. Mae copi o 'Gyflawni Ar Draws Ffiniau' i'w weld ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru ar www.cymru.gov.uk .

Yr wyf yn falch iawn â lefel yr ymrwymiad y mae awdurdodau lleol yn ne-ddwyrain Cymru wedi ei dangos tuag at gydweithredu a chydweithio, boed hynny drwy'r cynllun gofodol, pwyllgor cyd-drefnu rhanbarthol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cynllun Blaenau'r Cymoedd, neu fel arall. Bydd datblygiadau pellach yn y maes hwn yn hanfodol er mwyn cynnal safon o wasanaethau sy'n diwallu anghenion y cyhoedd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba mor gyflym yr ymatebodd i gwestiynau ysgrifenedig yn 2006? (WAQ49216) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Trefnydd.***

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ49222.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi nifer yr ysbytai a gaewyd bob blwyddyn rhwng 1979 ac 1996, ac a wnaiff roi manylion am nifer y gwelyau ym mhob ysbyty? (WAQ49295)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr atebion i gwestiynau 49295 / 49297 / 49298 yn cyfeirio at flynyddoedd calendr. Daw'r data o'r ystadegau defnydd o ysbytai ac mae a wnelo felly â'r

ysbytai hynny sy’n cynnwys gwelyau i gleifion mewnol. Nid yw’r data’n cynnwys ysbytai sydd wedi cau’n rhannol, ysbytai sydd wedi cael eu hailgodi ond gyda’r un enw nac ysbytai sydd wedi cau ac wedi ailagor wedyn.

O ran y nifer o welyau mewn perthynas â’r un tri chwestiwn, nid yw’n bosibl darparu data ystyrlon. Yn ystod oes ysbyty (e.e. nifer o ddegawdau o bosibl) bydd y proffil gwasanaethau yn newid ac yn effeithio ar y nifer o welyau. Yn yr un modd, mae’r nifer o welyau yn aml yn newid yn ddyddiol / wythnosol mewn ymateb i faterion gweithredol fel rheoli heintiau / niferoedd staffio / gwaith ailwampio / newidiadau gwasanaeth dros dro.

Gan gymryd yr uchod i ystyriaeth, fel sy’n briodol, mae’r atebion i’ch cwestiynau unigol fel a ganlyn:

Mae’r data canolog canlynol ar gael o ran ysbytai a gaewyd.

| | | |
|---|---|---|
| 1979 = 2 | 1985 = 6 | 1991 = 12 |
| 1980 = 4 | 1986 = 3 | 1992 = 3 |
| 1981 = 1 | 1987 = 1 | 1993 = 6 |
| 1982 = 0 | 1988 = 1 | 1994 = 8 |
| 1983 = 1 | 1989 = 0 | 1995 = 4 |
| 1984 = 2 | 1990 = 3 | 1996 = 3 |

O ran gwybodaeth am welyau, gweler yr eglurhad uchod.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch pa ysbytai newydd a godwyd bob blwyddyn er 1997 a godwyd drwy gyfrwng menter cyllid preifat? (WAQ49296)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Mae tri ysbyty GIG yng Nghymru wedi cael eu codi drwy’r fenter cyllid preifat ac wedi agor er 1997: Ysbyty Cymuned Cas-gwent, Ysbyty Cymdogaeth Dewi Sant yng Nghaerdydd, ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi nifer yr ysbytai newydd a godwyd bob blwyddyn er 1997, ac a wnaiff roi manylion am nifer y gwelyau ym mhob ysbyty? (WAQ49297)

**Brian Gibbons:** Isod ceir y nifer o ysbytai sydd wedi agor er 1997 sy’n cynnwys gwelyau i gleifion mewnol.

| | | |
|---|---|---|
| 1997 = 1 | 2001 = 0 | 2005 = 0 |
| 1998 = 0 | 2002 = 3 | 2006 = 0 |
| 1999 = 1 | 2003 = 1 | |
| 2000 = 0 | 2004 = 0 | |

Yn ogystal, mae ysbyty cymuned newydd wedi cael ei godi yn Ninbych-y-pysgod, nad yw’n cynnwys gwelyau i gleifion mewnol. Mae dau ysbyty’n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd sef Ysbyty Alltwen, Porthmadog, ac Ysbyty Cwm Rhondda, ac mae achosion busnes yn cael eu datblygu am dri ysbyty pellach yng Nghaerffili, Blaenau Gwent a Chwm Cynon.

O ran gwybodaeth am welyau, gweler yr eglurhad uchod.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi nifer yr ysbytai a gaewyd bob blwyddyn er 1997, ac a wnaiff roi manylion am nifer y gwelyau ym mhob ysbyty? (WAQ49298)

**Brian Gibbons:** Mae’r data canolog canlynol ar gael am gau ysbytai. Y dyddiadau cau a nodir yw’r dyddiadau pan beidiodd y gweithgarwch cleifion mewnol. Mewn rhai achosion, efallai fod gweithgarwch gofal dydd/achosion dydd a chleifion allanol wedi parhau.

| | | |
|---|---|---|
| 1997 = 2 | 2001 = 3 | 2005 = 1 |
| 1998 = 4 | 2002 = 3 | 2006 = 0 |
| 1999 = 3 | 2003 = 1 | |
| 2000 = 2 | 2004 = 6 | |

O ran gwybodaeth am welyau, gweler yr eglurhad uchod.

**Nick Bourne:** Faint a wariwyd gan adran y Gweinidog ar gyhoeddusrwydd yn 2006? (WAQ49244)

**Brian Gibbons:** Yn dilyn eich cwestiwn uchod a’m hymateb ar 22 Mawrth, tynnwyd fy sylw at y ffaith nad oedd y data i gyd wedi cael ei gynnwys yn yr ateb hwn. Felly, darperir ffigurau diwygiedig isod

Yr oedd y cyfanswm a wariwyd ar gyhoeddusrwydd rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2006 yn £1,368,682, ac mae hyn wedi cael ei ddadansoddi gydag enghreifftiau o ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd na chaffaelwyd mohonynt yn ganolog, fel a ganlyn:

- Pobl hŷn a gofal tymor hir: deunyddiau hyrwyddo o ran y strategaeth ar gyfer pobl hŷn a’r strategaeth gwasanaethau cymdeithasol—£25,850
- Rhoi Plant yn Gyntaf: cyhoeddusrwydd yn ymwneud â phlant a theuluoedd—£3,610.46
- Y Gyfarwyddiaeth Strategaeth: clefydau cronig—£120
- Contract deintyddol y Gyfarwyddiaeth Iechyd Cymunedol, Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Iechyd—£1,481
- Taflen gwynion/taflen hwyluso cwynion annibynnol—£10,000
- Deunyddiau cyhoeddusrwydd y rhaglen cleifion arbenigol—£10,000
- Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru—£25,923.72
- Comisiwn Iechyd Cymru—£20, 000
- Arolygiaeth Iechyd Cymru—£16,764.06
- Ymgyrch Cefnau Cymru—£544,057
- Fideo Cymru Iach—£13,876
- Her Iechyd Cymru—£480,000
- Iechyd rhywiol—£217,000

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae’n eu cymryd i roi sylw i anghydraddoldebau iechyd yn Nyffryn Clwyd? (WAQ49330)

**Brian Gibbons:** Fe’ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ48898 ar 22 Ionawr 2007.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog nodi sut mae ei bolisïau’n hyrwyddo’r gwaith o gydlynu gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn Nwyrain De Cymru? (WAQ49332)

**Brian Gibbons:** Mae’r cymunedau iechyd yn ne-ddwyrain Cymru yn gweithio i wireddu polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y’i nodwyd yn y ‘Cynllun Oes’. Y gwaith dros hen ardal Gwent sydd wedi mynd yn ei flaen bellaf, fel y nodwyd ym mhrosiect ‘Clinical Futures’. Mae’r ymgynghori cyhoeddus ffurfiol ynglŷn â hwn wedi dod i ben yn ddiweddar.

Bydd ein strategaeth ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ‘Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol: Strategaeth ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru dros y Degawd Nesaf’, yn cael ei chyhoeddi’n ddiweddarach y mis hwn ac mae hefyd yn berthnasol iawn i’r cymunedau iechyd yn

ne-ddwyrain Cymru. Bydd yn pwysleisio pwysigrwydd partneriaethau effeithiol rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r GIG, sy'n defnyddio llwybrau gofal i gefnogi pobl. Mae hyrwyddo gweithio da drwy bartneriaeth ar y rhyngwyneb rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol. Bydd defnydd mwy ar y mesurau hyblygrwydd dan adran 31 o Ddeddf Iechyd 2006, yn cynnwys cyllidebau ar y cyd, darpariaeth integredig a chomisiynu arweiniol, yn cefnogi'r dull gweithredu hwn.

Mae cynlluniau'n mynd rhagddynt yn dda ar gyfer dau ysbyty cyffredinol lleol newydd yng Nghaerffili a Blaenau Gwent fel rhan o brosiect 'Clinical Futures'.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei bolisïau ar gyfer gwella mynediad i'r GIG yng Nghymru wledig? (WAQ49335)

**Brian Gibbons:** Rhaid i unrhyw newid i'r ddarpariaeth GIG gael ei fesur yn erbyn yr uchelgais, fel y'i nodwyd yn y 'Cynllun Oes', o ddarparu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy, diogel, o safon fyd-eang i'n holl drigolion erbyn 2015, yn cynnwys y trigolion hynny mewn ardaloedd gwledig.

**Jocelyn Davies:** A all y Gweinidog nodi sawl blwyddyn a gollwyd oherwydd marwolaethau o ganlyniad i epilepsi a status epilepticus am y blynyddoedd er archwiliad cenedlaethol 2002? (WAQ49430)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Rhoddir y nifer o flynyddoedd o fywyd a gollwyd fesul 10,000 o drigolion ar gyfartaledd yn flynyddol oherwydd epilepsi a status epilepticus yn y tabl isod.

**Blynyddoedd o fywyd a gollwyd oherwydd epilepsi (c) a status epilepticus (d) (a)**

| Blwyddyn (b) | Nifer o flynyddoedd o fywyd a gollwyd ar gyfartaledd |
|---|---|
| 2003 – 2005 | 3.63 |

Atebion Iechyd Cymru

(a) Caiff y nifer o farwolaethau ymysg pobl dan 75 oed ym mhob grŵp oedran pum mlynedd ei luosi â'r gwahaniaeth rhwng canolbwynt y grŵp oedran a 74.5. Ceir y nifer o flynyddoedd o fywyd a gollir yn flynyddol ar gyfartaledd drwy adio ar draws y grwpiau oedran a rhannu â 5. Cyflwynir y ffigurau fel cyfradd fesul 10,000 o drigolion.
(b) Oherwydd y niferoedd cymharol fach o farwolaethau oherwydd epilepsi a status epilepticus bob blwyddyn, cyfrifir y blynyddoedd o fywyd a gollwyd ar sail cyfnod tair blynedd.
(c) ICD-10 Cod G40.
(d) ICD-10 Cod G41.

**Jocelyn Davies:** Yn dilyn ei ateb i WAQ48868, a wnaiff y Gweinidog ddatgan a oedd y nifer o farwolaethau a roddwyd yn cynnwys marwolaethau oherwydd status epilepticus? (WAQ49436)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Nid oedd yr ateb i WAQ48868 yn cynnwys marwolaethau oherwydd status epilepticus. Rhoddir nifer y marwolaethau ymysg trigolion Cymru yn y tabl isod:

**Nifer y marwolaethau yn ôl prif achos a blwyddyn (a)**

| **Blwyddyn** | **Epilepsi (b)** | **Status epilepticus (c)** |
|---|---|---|
| 2002 | 52 | 3 |
| 2003 | 61 | 2 |
| 2004 | 53 | 4 |
| 2005 | 39 | 3 |

**Ffynhonnell:** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

(a) Seilir yr achos marwolaeth ar yr achos marwolaeth 'terfynol', sy'n ystyried unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarperir gan ymarferwyr meddygol neu grwneriaid ar ôl i'r farwolaeth gael ei chofrestru.
(b) ICD-10 cod G40.
(c) ICD-10 cod G41.

**Nick Bourne:** Pa ystyriaeth a roddir i ddefnyddio gwasanaeth trên Eurostar ar gyfer ymweliadau Gweinidogion a swyddogion â Brwsel, yn hytrach na chludiant awyr? (WAQ49528) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe'ch cyfeiriaf at WAQ49523.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r ymweliadau tramor a wnaed gan swyddogion yn ei adran yn y flwyddyn ddiwethaf, ynghyd â'r rheswm dros yr ymweliadau hynny? (WAQ49529) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Trefnydd.***

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ49522.

**Jenny Randerson:** Pa drefniadau cyllido a sefydlwyd er mwyn sicrhau capasiti gwasanaeth digonol ar gyfer cleifion a ganfuwyd â chanser y fron HER2 cadarnhaol? (WAQ49552)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau i gleifion y mae angen triniaeth arnynt ar ôl cael cadarnhad eu bod yn HER2 positif.

Penderfyniad clinigol yw pa un i ragnodi trastuzumab (Herceptin) ar ôl diagnosis ac fe'i seilir ar natur y tiwmor a pha mor briodol yw'r driniaeth i'r unigolyn dan sylw. Yn dilyn canllawiau gan grŵp strategaeth meddyginiaethau Cymru gyfan ar trastuzumab ar gyfer achosion cynnar o ganser y fron, ymgymerodd y rhwydweithiau canser rhanbarthol ag asesiad angen a datblygasant gyngor comisiynu, gyda chymorth y byrddau iechyd lleol, ar brofi a gweinyddu'r driniaeth, i ddiwallu'r galw.

**Jenny Randerson:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r buddiannau a ddaw i gapasiti'r gwasanaeth yn sgil defnyddio cemotherapi ar ffurf moddion trwy'r geg ar gyfer trin canser? (WAQ49553)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Wrth i'r defnydd o gemotherapïau gynyddu, bydd rhai manteision capasiti gwasanaeth o ran lleihau'r pwysau ar unedau fferylliaeth aseptig ac unedau nyrsio cemotherapi dydd.

Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio ag ystyried cemotherapi ar ffurf moddion drwy'r geg fel opsiwn hawdd. Gall y peryglon sy'n gysylltiedig ag ef fod lawn cymaint â'r peryglon sy'n gysylltiedig â chemotherapi confensiynol. Bydd angen adnoddau helaeth o hyd gan y timau arbenigol sy'n darparu gwasanaethau cemotherapi ar hyn o bryd i gefnogi'r cleifion hyn.

Rôl y rhwydweithiau canser fydd gweithio gyda'r rhanddeiliaid i gyd i ddatblygu modelau gwasanaeth sy'n cael eu ffafrio i ddarparu gwasanaethau canser ar draws Cymru. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ystyried effaith newidiadau yn y ffordd o roi cemotherapi yn y dyfodol.

**Rosemary Butler:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau cardiaidd yng Ngwent? (WAQ49870)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Caiff gwasanaethau cardiaidd i bobl Gwent eu comisiynu gan fyrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru. Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn gwella gwasanaethau cardiaidd yw gweithredu'r fframwaith gwasanaethau cenedlaethol ar gyfer clefyd coronaidd y galon. Mae proses y fframwaith gwasanaeth a chyllid—y cynllun cyflawni y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r GIG—yn gosod targedau blynyddol gyda'r bwriad o leihau amseroedd aros a gwireddu blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Agorwyd labordy cathetrau o'r radd flaenaf yn Ysbyty Brenhinol Gwent ym mis Tachwedd 2005. Cyllidwyd y cyfleuster hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn partneriaeth â'r Gronfa Loteri Fawr. Yr oedd y cyfleuster newydd yn dyblu'r capasiti blaenorol o ran diagnosteg cardiaidd arbenigol ac mae hefyd yn darparu labordy gosod cathetrau cardiaidd pwrpasol a ward dydd ar y safle. Bydd yr ehangu hwn yn golygu bod modd cynyddu'r ddarpariaeth angiograffi ar y dechrau a'i chynyddu'n raddol wedi hynny hefyd.

Mae fframwaith ansawdd a chanlyniadau'r contract gwasanaethau meddygol cyffredinol yn gynllun cymell i ddarparu gofal sylfaenol o ansawdd uchel ac mae'n cynnwys pwyntiau a dangosyddion am gleifion sydd â chlefyd coronaidd y galon. Enillodd practisiau meddygon teulu yng Ngwent 97.66 y cant o bwyntiau yn 2005-06, a 93.78 yn cant yn 2004-05. Yr oedd hynny'n uwch na chyfartaledd Cymru yn y naill flwyddyn a'r llall.

Sefydlwyd y gronfa anghydraddoldebau iechyd yn 2001 i ysgogi a chefnogi gweithredu lleol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a ffactorau cyfrannu fel annhegwch o ran mynediad at wasanaethau. Mae'r gronfa'n cefnogi 62 o brosiectau ar hyn o bryd sy'n canolbwyntio'n bennaf ar glefyd coronaidd y galon. Caiff y prosiectau eu targedu at gymunedau difreintiedig.

Mae'r gronfa'n cefnogi 13 o brosiectau yn rhanbarth Gwent ar hyn o bryd (mae tri arall wedi cael eu cwblhau cyn hyn). Mae'r gwaith wedi cwmpasu sgrinio ac asesu risg, cyngor ynglŷn â newid ffordd o fyw—yn cynnwys maeth a rhoi'r gorau i ysmygu—rhaglenni rheoli pwysau, clinigau gordewdra arbenigol, atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff a rhaglenni ailsefydlu cardiaidd. Mae rhai prosiectau wedi targedu cymunedau ethnig yn benodol hefyd.

Mae gwerthusiadau yn dal i fynd rhagddynt ond mae'r canlyniadau hyd yma wedi bod yn gadarnhaol. Mae'r prosiectau i fod i gael eu cwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2007-08 ar ei hyd ac mae'r timau'n gweithio gyda'u comisiynwyr lleol ar hyn o bryd gyda golwg ar gynnwys darpariaeth lwyddiannus mewn gwasanaethau prif ffrwd.

**Helen Mary Jones:** Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu rhoi i bob ymddiriedolaeth a bwrdd iechyd lleol ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer y glasoed sydd â salwch meddwl? (WAQ49894)

**Brian Gibbons:** Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei strategaeth 10 mlynedd er mwyn gwella gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yng Nghymru, dan y teitl 'Busnes Pawb', yn 2001.

Yr oedd y ddogfen hon yn canolbwyntio ar gyfrifoldeb pob asiantaeth a gwasanaeth wrth ddiogelu iechyd meddwl a lles seicolegol plant a phobl ifanc, ac mae'n nodi'n glir pa wasanaethau y byddai un ai'r byrddau iechyd lleol neu Gomisiwn Iechyd Cymru yn gyfrifol am eu comisiynu.

Mae'r Gweinidogion wedi ail-gadarnhau eu hymrwymiad y dylai'r GIG ddatblygu'r rhwydweithiau comisiynu CAMHS a amlinellwyd yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru 2003/063 ac sy'n ofynnol yn ôl WHC 2005/075. Bydd y rhwydweithiau hyn mewn gwell sefyllfa i fapio'r ddarpariaeth, cynllunio'r hyn y mae ei angen yn eu hardal a chomisiynu'r lefel ofynnol o wasanaethau.

Cyhoeddwyd canllawiau am ystod oedran y cleifion sy'n cael eu trin gan CAMHS yn 2002, ar ffurf Cylchlythyr Iechyd Cymru 2002/125.

Mae'r grant Rhoi Plant yn Gyntaf a'r adnoddau a nodwyd yn cynnwys elfen i ddatblygu cyfraniadau yr awdurdodau lleol at wasanaethau CAMHS. Mae disgwyl i'r awdurdodau lleol ddatblygu trefniadau lleol gyda'r GIG, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a chyrff gwirfoddol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gosod targedau fframwaith gwasanaeth a chyllid ymestynnol i CAMHS er 2004. Mae'r targed newydd a osodwyd ar gyfer 2007-08 wedi ei fwriadu'n benodol i leihau'r amseroedd aros cyn derbyn cleifion i wasanaethau haen 4.

Mae'r dull hwn wedi cael ei ailadrodd yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer plant, pobl ifanc a gwasanaethau mamolaeth. Ymdrinnir ag iechyd meddwl a lles seicolegol plant a phobl ifanc fel un adran o'r fframwaith. Mae'n cynnwys camau gweithredu allweddol, penodol a mesuradwy, i ddarparu gwasanaethau amlasiantaeth ar draws haenau 1 i 4 sydd â chysylltiadau agos â strategaeth CAMHS, 'Busnes Pawb'.

Dywed y canllawiau addysg, 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion', a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2006, fod sesiynau hyfforddi ar y cyd â rhieni, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol o asiantaethau eraill fel staff y gwasanaeth iechyd, Gyrfa Cymru a grwpiau gwirfoddol lleol yn ffordd fuddiol o hybu dealltwriaeth broffesiynol ac o wella'r ddarpariaeth i unigolion drwy well cydweithio.

Mae'r gwasanaethau iechyd meddwl GIG plant a'r glasoed yn gweithredu mewn llawer o rannau o Gymru ar hyn o bryd yn darparu hyfforddiant i ysgolion, i'w helpu i gyflawni eu rôl fel gwasanaethau CAMHS haen 1, fel y nodwyd yn 'Busnes Pawb'. Mae hyn yn cyd-fynd ag argymhelliad yn adroddiad Estyn yn ddiweddar, 'Behaviour Management Training (2004)', y dylid gwneud mwy i wella dealltwriaeth athrawon a staff cymorth o iechyd meddwl plant.

Cafodd y strategaeth genedlaethol ar gyfer cwnsela yn yr ysgol ei chyhoeddi at ddibenion ymgynghori ym mis Chwefror 2007.

Bydd y ddarpariaeth CAMHS ar bob lefel a thrwy bob asiantaeth yn cael ei hadolygu'n annibynnol dros y 12 mis nesaf gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Iechyd Cymru. Hefyd, mae materion pontio i'r gwasanaethau oedolion yn cael eu hystyried fel rhan o adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r gwasanaethau i oedolion, ac fel rhan o adolygiad i sicrhau gwasanaethau iechyd meddwl fforensig.

Bydd yr adolygiadau hyn yn gyfle i nodi'n fwy manwl y cynnydd sydd wedi cael ei wneud ers lansio 'Busnes Pawb', a'r canlyniadau a sicrhawyd i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Maent yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer y cyfnod sy'n weddill o'r strategaeth 10 mlynedd.

**Helen Mary Jones:** Pryd fydd Uned Harvey Jones i'r glasoed yng Nghaerdydd yn cael ei hagor ym Mhen-y-bont ar Ogwr? (WAQ49895)

**Brian Gibbons:** Mae cynigion ymgynghori wedi cael eu cynllunio o fis Mai 2007 i drosglwyddo a datblygu gwasanaeth cleifion mewnol y gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed o uned Harvey

Jones i safle Ysbyty Tywysoges Cymru erbyn 2010. Cynigir hefyd, yn y cyfamser, fod y gwasanaeth yn symud i adeiladau sydd wedi cael eu huwchraddio yng Nglan-rhyd, Pen-y-bont ar Ogwr, a fydd ar gael erbyn gwanwyn 2008.

**Helen Mary Jones:** Pan agorir uned Harvey Jones i'r glasoed ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a fydd yn cynnwys dwy ward newydd, un ar gyfer derbyniadau brys yng nghyswllt unigolion o blith y glasoed gyda salwch meddwl, ac un i drin pobl ifanc hyd at 25 oed gydag anhwylderau bwyta? (WAQ49896)

**Brian Gibbons:** Mae cynigion ymgynghori wedi cael eu cynllunio o fis Mai 2007 i drosglwyddo a datblygu gwasanaeth cleifion mewnol y gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed o uned Harvey Jones i safle Ysbyty Tywysoges Cymru erbyn 2010. Cynigir hefyd, yn y cyfamser, fod y gwasanaeth yn symud i adeiladau sydd wedi cael eu huwchraddio yng Nglan-rhyd, Pen-y-bont ar Ogwr, a fydd ar gael erbyn gwanwyn 2008.

Yn wyneb gostyngiad dros gyfnod yn y nifer o dderbyniadau, mae Comisiwn Iechyd Cymru wedi penderfynu datblygu gwasanaeth anhwylderau bwyta cymunedol arbenigol trydyddol newydd i gynorthwyo gwasanaethau lleol i drin cleifion sydd ag anhwylder bwyta. Mae'r comisiwn yn gweithio gyda'r ymddiriedolaethau i ddatblygu'r gwasanaeth newydd, y disgwylir iddo gychwyn yn ddiweddarach eleni. Bydd y comisiwn yn adolygu cyfluniad y gwasanaeth drwyddo draw yn y De unwaith y bydd y gwasanaeth newydd wedi cael ei sefydlu.

**Helen Mary Jones:** Faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei fuddsoddi mewn triniaeth ar gyfer y glasoed sydd â salwch meddwl yng Nghymru? (WAQ49897)

**Brian Gibbons:** Mae'n anodd mesur cyfanswm y gwariant ar drin pobl ifanc yn unig sydd â salwch meddwl. Fodd bynnag, ar gyfer 2005-06, mae'r gwariant gwirioneddol a gofnodwyd ar CAMHS drwy ddatganiadau cyllidebau rhaglenni'r GIG yn dangos bod y gwariant ar CAMHS yn £37.3 miliwn. O'r swm hwnnw yr oedd £27 miliwn yn wariant BILlau a £10.3 miliwn yn wariant gan Gomisiwn Iechyd Cymru.

Wedi'i gynnwys yn y gwariant hwn sydd wedi'i gofnodi, mae £1.2 miliwn o gyllid GIG rheolaidd wedi cael ei ddarparu ar gyfer CAMHS o 2004-05 ar gyfer:

- darparu gwelyau i bobl ifanc y mae angen eu derbyn mewn argyfwng;
- timau ymgynghori glasoed fforensig;
- gweithwyr iechyd meddwl sylfaenol; a
- datblygu modiwl lefel diploma gan Brifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Bangor.

Gosodwyd targedau CAMHS penodol ym mhroses y fframwaith gwasanaeth a chyllid ar gyfer pob un o'r blynyddoedd 2004-05, 2005-06 a 2006-07. Hefyd, mae cyfanswm o £2 filiwn o gyllid GIG nad yw'n gyllid rheolaidd wedi cael ei ddarparu er 2005-06, i wella mynediad o ran amseroedd aros CAMHS, drwy wella capasiti a gallu CAMHS arbenigol yng Nghymru a rheoli'r galw.

Mae polisïau a ddatblygwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol i ddarparu cymorth a chyngor i blant a phobl ifanc a allai fod yn cael problemau emosiynol i gyd wedi eu gwreiddio yn strategaeth CAMHS, 'Busnes Pawb', a lansiwyd yn 2001.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y diffyg cyllid ar gyfer trin cleifion gydag apnoea cwsg rhwystrol yng Nghaerdydd? (WAQ49899)

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb y BILlau, mewn partneriaeth â Chomisiwn Iechyd Cymru, fel sy'n briodol, yw comisiynu gwasanaethau lleol, yn cynnwys gwasanaethau am apnoea cwsg rhwystrol. Mae'r BILlau mewn sefyllfa dda i werthuso'r angen yn lleol a chomisiynu a datblygu gwasanaethau yn unol â hynny.

Rhaid iddynt wneud penderfyniadau anodd yn aml fel rhan o'r broses gomisiynu a gweithio i sicrhau bob amser eu bod yn cynllunio ar gyfer anghenion lleol cydnabyddedig.

Mae adolygiad o wasanaethau apnoea cwsg rhwystrol ar y gweill yng Nghymru a bydd y canlyniadau yn help i nodi'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyflwr hwn yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r cyfarwyddebau datblygu a chomisiynu gwasanaethau ar gyfer cyflyrau anadlu, sy'n cael eu cwblhau ar eu gwedd derfynol ar hyn o bryd yn dilyn yr ymgynghori diweddar â'r cyhoedd, hefyd yn ymdrin ag apnoea cwsg rhwystrol ac yn argymell y dylid sefydlu rhwydweithiau iechyd anadlol rhanbarthol ar gyfer cyflyrau arbenigol o'r fath.

Bydd y canllawiau comisiynu sydd ar fin ymddangos yn annog dull mwy cydweithredol o gomisiynu ar sail ranbarthol i sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol Ysbyty Fairwood yn Abertawe? (WAQ49900)

**Brian Gibbons:** Yn unol â'n canllawiau ar gynigion i newid gwasanaethau iechyd, mae'r ymdrechion yn canolbwyntio ar benderfynu'n lleol beth sydd er lles pennaf cleifion. I'r perwyl hwnnw, mae'r cyngor iechyd cymuned yn bwrw ymlaen â gwaith i sicrhau bod pob llwybr posibl wedi cael ei archwilio wrth geisio cytundeb am y ddarpariaeth gwasanaethau yn Abertawe i'r dyfodol. Mae'r CIC yn ystyried y wybodaeth ychwanegol a ddaeth i law oddi wrth y BILl a'r ymddiriedolaeth. Mae gweithdy wedi cael ei drefnu ar 3 Ebrill i sicrhau bod ystyriaeth drylwyr yn cael ei rhoi i'r wybodaeth hon.

Ar ôl y gweithdy, bydd y CIC yn cwrdd yn ffurfiol â swyddogion o swyddfa ranbarthol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru ganol mis Ebrill i symud y gwaith hwn yn ei flaen. Byddai'n amhriodol dyfalu pryd y caiff penderfyniad terfynol ei wneud oherwydd bydd yn dibynnu ar ganlyniad y gweithdy. Nid ydym wedi cyrraedd cyfnod lle mae cytundeb terfynol wedi cael ei daro na phenderfyniadau wedi cael eu gwneud.

Os na ellir dod i gytundeb ar ôl y gweithdy a bod angen i wybodaeth bellach gael ei darparu gan yr ymddiriedolaeth a'r BILl, bydd y swyddfa ranbarthol yn cwrdd â hwy eto i weld a oes modd datrys y mater.

Os na ellir cytuno bryd hynny, bydd unrhyw gynnig yn cael ei anfon ataf fi i mi ei ystyried a phenderfynu arno.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau i agor ysbyty newydd yn Abertawe yn lle'r ysbytai presennol yn Nhreforys a Singleton? (WAQ49901)

**Brian Gibbons:** Erbyn hyn mae cymuned iechyd Abertawe a'i phartneriaid wedi datblygu rhaglen amlinellol strategol, sy'n amlinellu'r opsiynau o ran darparu gwasanaethau aciwt, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd cymunedol yn Abertawe i'r dyfodol. Mae'r rhaglen amlinellol strategol hon yn cael ei hystyried gan y Cynulliad yn awr ynghyd â rhaglenni amlinellol tebyg sydd wedi dod i law o bob rhanbarth arall o Gymru. Yn ystod y gwanwyn, caiff rhaglen gyfalaf newydd Cymru gyfan, a seilir ar y rhaglenni amlinellol strategol hyn, ei chynhyrchu, a bydd yn nodi'r blaenoriaethau gwariant cyfalaf arfaethedig i Gymru am y 10 i'r 15 mlynedd nesaf.

Bydd angen i'r gwahanol opsiynau sydd ar gael o ran gwasanaethau aciwt yn Abertawe gael eu gwerthuso'n llawn drwy broses buddsoddi cyfalaf GIG Cymru gyfan cyn y gellir nodi opsiwn sy'n cael ei ffafrio. Mae gwaith eisoes ar y gweill yn paratoi achos busnes amlinellol strategol, a ddylai gael ei gwblhau tua diwedd 2007. Bydd hwn yn edrych ymhellach ar yr opsiynau o ran yr un ysbyty integredig arfaethedig. Mae'n annhebygol y caiff yr opsiwn terfynol ei gadarnhau hyd nes y caiff yr achos busnes amlinellol ei ddatblygu a'i gyflwyno yn ystod 2008

**Nick Bourne:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddarparu uned iau arbenigol ar gyfer y rhai sy'n dioddef o glefyd yr iau yng Nghymru? (WAQ49902)

**Brian Gibbons:** Nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i ddarparu uned o'r fath. Caiff cleifion sydd â chlefyd yr iau eu trin yn bennaf gan gastroenterologwyr ar draws Cymru mewn ysbytai lleol. Caiff cleifion y mae angen rheolaeth achos fwy cymhleth arnynt neu drawsblaniad iau eu cyfeirio i glinigau arbenigol yn Lloegr am driniaeth. Mae angen poblogaeth ddalgylch fawr o 7 miliwn o leiaf ar wasanaethau o'r fath i gynnal safonau clinigol gyda seilwaith pwrpasol.

Mae Comisiwn Iechyd Cymru ar hyn o bryd yn comisiynu gwasanaethau iau trydyddol oddi wrth ganolfannau arbenigol sydd wedi hen ennill eu plwyf ym Mirmingham a Llundain at ddefnydd cleifion o Gymru.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio contractau dros-dro ar gyfer staff nyrsio a staff ategol sy'n gweithio yn ysbyty Fairwood, Abertawe? (WAQ49910)

**Brian Gibbons:** Mae pob ymddiriedolaeth, fel rhan o broses reoli gadarn, yn cynnal proses i adolygu swyddi gwag. Gwneir hyn i sicrhau, wrth i swyddi ddod yn wag, fod asesiadau'n cael eu gwneud o ofynion y gwasanaeth er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol nad ydynt yn peryglu'r gofal i gleifion ac sydd o'r safon uchaf.

Mae'r mwyafrif o'r staff sy'n dal yn Ysbyty Fairwood yn staff gwreiddiol ac, felly, maent ar gontractau parhaol. Fodd bynnag, mae unrhyw swyddi nyrsio neu swyddi staff ategol sy'n dod yn wag yn cael eu llenwi ar sail dros dro, gan nad yw dyfodol y swyddi hyn yn sicr hyd nes y gwneir penderfyniad terfynol am y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn Ysbyty Fairwood. Mae'r staff i gyd wedi cael gwybodaeth ddiweddaru lawn yn ystod y broses hon.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gynlluniau i gefnogi penodi hepatolegydd yng Nghymru? (WAQ49911)

**Brian Gibbons:** Nid oes unrhyw hepatolegwyr yn ymarfer yng Nghymru ar hyn o bryd. Yng Nghymru, caiff cleifion sydd â chlefyd yr iau eu trin yn bennaf gan gastroenterolegwyr. Felly, er bod cynlluniau i ehangu'r gwasanaethau hepatoleg yng Nghymru, nid yw'r rhain yn cynnwys recriwtio hepatolegwyr.

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen dal i fyny ar gyfer Prevenar, y brechlyn niwmococol cyfunedig, yng Nghymru? (WAQ49912)

**Brian Gibbons:** Lansiwyd yr ymgyrch dal i fyny ar gyfer y brechlyn niwmococol cyfunedig ar 4 Medi 2006 ynghyd â chyflwyno rhaglen ddiwygiedig o frechiadau plentyndod arferol. Bydd rhai ffigurau cynnar am y nifer o blant sy'n cyrraedd dwy oed sydd wedi manteisio ar y rhaglen dal i fyny ar gael yn ddiweddarach yr wythnos hon yng nghyhoeddiad ystadegau chwarterol y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, COVER, sy'n cwmpasu'r cyfnod Hydref-Rhagfyr 2006. Fodd bynnag, gan fod yr ymgyrch dal i fyny yn dal i fynd rhagddi, ac mai'r niferoedd ar ddwy oed yw'r dangosydd arferol gorau o'r nifer o blant a gynhwyswyd yn yr ymgyrch dal i fyny sydd wedi manteisio, bydd adroddiadau yn COVER i'r dyfodol yn rhoi darlun mwy cynhwysfawr o'r niferoedd drwyddynt draw.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd sganwyr PET (tomograffeg allyriad positron) yng Nghymru, a pha gynlluniau sydd ganddo i gynyddu'r ddarpariaeth hon? (WAQ49913)

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb Comisiwn Iechyd Cymru yw penderfynu ar geisiadau unigol am gyllid sganwyr PET o fewn fframwaith ei bolisi ar fynediad.

Ar 24 Ionawr 2007, lansiodd y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau a minnau Ganolfan Ymchwil a Diagnosteg Tomograffeg Allyriad Positron Cymru yn ffurfiol. Mae wedi'i lleoli mewn adeiladau pwrpasol yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd. Yr ydym wedi ymrwymo i ddatblygu triniaethau newydd a darparu cyfarpar modern er mwyn gwella ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd i bobl Cymru. Bydd y ganolfan PET hon, unwaith y bydd yn weithredol ac yn manteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf, yn helpu Cymru i wireddu'r nod hwnnw. Ynghyd â'r dechnoleg pelydr X ddiweddaraf, bydd y cyfleuster hwn yn cynhyrchu delweddau manwl a chywir i staff clinigol ac ymchwilwyr. Yr ydym yn disgwyl iddo fod yn weithredol erbyn diwedd 2008.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hysbysu menywod Cymru o'r angen am sgrinio serfigol rheolaidd? (WAQ49924)

**Brian Gibbons:** Mae Sgrinio Serfigol Cymru yn gwahodd pob menyw rhwng 20 a 64 oed sy'n byw yng Nghymru i fynd i gael sgrinio serfigol bob tair blynedd. Mae pob menyw'n cael gwahoddiad personol a thaflen, 'Sgrinio Serfigol: Y Ffeithiau', gyda gwybodaeth i'w galluogi i benderfynu ynglŷn â sgrinio ar sail gwybodaeth.

Yn ychwanegol at y gweithgaredd rheolaidd hwn, mae Sgrinio Serfigol Cymru ar hyn o bryd yn comisiynu ymgyrch hysbysebu yn y cyfryngau (y teledu a'r sinema) i annog menywod i fynd i gael sgrinio serfigol yn rheolaidd.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog esbonio sut y penderfynir faint o leoedd hyfforddi nyrsys a fydd ar gael? (WAQ49925)

**Brian Gibbons:** Mae ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru yn cyflwyno cynlluniau gweithlu i uned datblygu'r gweithlu yn yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal iechyd yn flynyddol, yn amlinellu'r staff y maent yn rhagweld y bydd eu hangen arnynt dros y cyfnod nesaf o bum mlynedd i ddarparu gwasanaethau. Mae'r ffigurau rhagarweiniol hyn hefyd yn cael eu cyflwyno i'r fforwm partneriaeth.

Mae lleoedd nyrsys dan hyfforddiant yn cael eu comisiynu'n flynyddol ar sail y cynlluniau gweithlu a ddarperir gan y GIG. Mae bwlch o bedair blynedd rhwng cyflwyno'r cynlluniau a'r adeg y bydd nyrs yn cymhwyso. Er bod hyn yn ei gwneud hi braidd yn anodd dal y ddysgl yn wastad rhwng y cyflenwad a'r galw, mae'r prosesau a gaiff eu defnyddio yn y dyfodol i reoli'r trefniadau i gynllunio'r gweithlu yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

Mae'r nifer o nyrsys (yn cynnwys nyrsys ategol) wedi codi o 30,948 ym 1997 i 43,215 yn 2005. Cododd y nifer cyfwerth ag amser llawn o staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd cymwysedig 572 i 20,698 (29,416 o staff mewn swydd) rhwng 2004-05. Yr ydym yn prysur nesáu at y targed o fod â 6,000 o nyrsys ychwanegol erbyn 2010, a osodwyd gan fy rhagflaenydd, gan ein bod wedi cyrraedd cynnydd o 4,977 erbyn 2005.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y strategaeth nyrsys ysgol? (WAQ49926)

**Brian Gibbons:** Yn dilyn trafodaeth gan is-bwyllgor y Cabinet ar blant a phobl ifanc, sefydlwyd grŵp ar draws Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu consensws cenedlaethol am rôl nyrsys ysgol ac i lunio cynllun gweithredu i symud gwasanaeth nyrsio ysgolion modern yn ei flaen yng Nghymru. Mae'r grŵp wedi cymryd tystiolaeth am wahanol fodelau nyrsio ysgolion ac mae'r dystiolaeth hon wedi cael ei thynnu ynghyd yn fframwaith drafft.

Yn ddiweddar cefais fy mriffio am y fframwaith drafft, sy'n cynnwys safonau arfaethedig ar gyfer gwasanaethau nyrsio ysgolion yng Nghymru. Cyn ymgynghori'n ehangach yn ei gylch, yr wyf wedi gofyn i'r swyddogion gylchredeg y fframwaith drafft yn fwy eang ar draws adrannau Llywodraeth y Cynulliad.

**Helen Mary Jones:** Yn dilyn ei ateb i WAQ49099; a wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch yr union fuddsoddiad menter cyllid preifat a wnaed ym mhob prosiect. (WAQ49928)

**Brian Gibbons:** Nid oedd modd imi ddarparu ateb i'r cwestiwn hwn o fewn y terfyn amser gan nad oedd y wybodaeth ar gael. Yr wyf erbyn hyn wedi cael y wybodaeth gan fy swyddogion, ac fe'i nodir isod:

Nid oes unrhyw symiau cyfalaf cychwynnol wedi cael eu talu gan ymddiriedolaethau GIG. Mae'r holl gostau cyfalaf sy'n gysylltiedig â chynllun menter cyllid preifat yn cael eu talu gan y contractwr trydydd parti ac mae'r holl gostau GIG sy'n gysylltiedig â PFI yn rhai refeniw eu natur, drwy drefniadau prydlesu, a thaliadau refeniw blynyddol ydynt felly.

**Helen Mary Jones:** Yn dilyn ei ateb i WAQ49099; a wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch cyfanswm y buddsoddiad cyfalaf a wnaed ym mhob prosiect? (WAQ49929)

**Brian Gibbons:** Mae gwerthoedd cyfalaf amcangyfrifedig cynlluniau cyllid menter preifat ymddiriedolaethau GIG Cymru, fel y'u nodir yng nghyfrifon archwiliedig 2005-06, fel a ganlyn:

| **Ymddiriedolaeth GIG** | **Cynllun** | **£000** |
|---|---|---|
| Bro Morgannwg | Ysbyty Baglan | 66,000 |
| Caerdydd a'r Fro | Ysbyty Dewi Sant | 13,847 |
| Sir Gaerfyrddin | Contract cynllun rheoli ynni | 300 |
| Conwy a Sir Ddinbych | Uned arennol | 1,673 |
| Gwent | Cynllun ynni ysbytai Casnewydd | 4,000 |
| Gwent | Ysbyty Cymuned Cas-gwent | 10,000 |
| Gwent | Cynllun ynni Ysbyty Nevill Hall | 3,300 |
| Gwent | Uned llawfeddygaeth ddydd Ysbyty Nevill Hall | 3,275 |
| Gogledd Morgannwg | Gwaith gwres a phŵer cyfunedig | 995 |
| Sir Benfro a Derwen | Gwaith gwres a phŵer cyfunedig | 150 |
| Pontypridd a Rhondda | Llety staff yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 2,521 |
| Cyfanswm | | 106,061 |

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y plant sydd â syndrom Munchausen drwy ddirprwy yng Nghymru? (WAQ49931)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau epilepsi yng Nghymru? (WAQ49932)

**Brian Gibbons:** Mae gwasanaethau wedi cael eu sefydlu yng Nghymru i sicrhau bod diagnosis o epilepsi yn cael ei roi mewn sefydliad gofal eilaidd gan niwrolegydd ymgynghorol. Ymarferydd cyffredinol sy'n rheoli'r cleifion hyn yn barhaus. Mae nyrsys epilepsi arbenigol yn darparu cymorth ychwanegol pwysig a gallant helpu i bontio'r bwlch rhwng gofal sylfaenol a gofal dan arweiniad ymgynghorydd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n cwblhau'r cyfarwyddebau datblygu a chomisiynu gwasanaethau epilepsi ar eu gwedd derfynol ar hyn o bryd. Caiff y rhain eu cyflwyno imi i mi eu cymeradwyo ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd erbyn diwedd mis Mawrth. Rhagwelir y bydd proses dri mis i ymgynghori â'r cyhoedd yn dechrau ar ôl etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2007, gyda'r nod o gyhoeddi'r ddogfen derfynol erbyn mis Awst 2007.

**Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr angen am hepatolegydd yng Nghymru? (WAQ49934)

**Brian Gibbons:** Nid oes unrhyw hepatolegwyr yn ymarfer yng Nghymru ar hyn o bryd. Yng Nghymru, caiff cleifion sydd â chlefyd yr iau eu trin yn bennaf gan gastroenterolegwyr. Felly, er bod cynlluniau i ehangu'r gwasanaethau hepatoleg yng Nghymru, nid yw'r rhain yn cynnwys recriwtio hepatolegwyr.

**Jenny Randerson:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud ynghylch gweithredu arweiniad NICE ar drin canser y fron cynnar a metastatig ym mhob rhwydwaith canser a phob ymddiriedolaeth GIG? (WAQ49951)

**Brian Gibbons:** Mae'r gwasanaethau canser cenedlaethol yn disgrifio agweddau craidd gwasanaethau canser a ddylai gael eu darparu i gleifion ledled Cymru a'u diben yw hyrwyddo'r ymarfer gorau o ran diagnosis, triniaeth, gofal a chymorth, heb ystyried y math o ganser. Mae'r safonau, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2005, yn adlewyrchu'r prif themâu yng nghanllawiau NICE ar wella canlyniadau.

Mae'r safonau hyn, sy'n gymwys yn gyffredinol, yn cynnwys mynediad at wasanaethau delweddu a diagnosteg o ansawdd uchel, yr amseroedd aros am driniaeth, mynediad at lawdriniaeth ddiogel ac effeithiol, triniaethau radiotherapi a chemotherapi, a darparu gwybodaeth a chymorth o ansawdd uchel ar bob cam o siwrnai'r claf. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gosod dyddiad targed, bydd gofyn i'r safonau hyn cael eu cyrraedd yn llawn erbyn mis Mawrth 2009.

O ran trin canser y fron cynnar a metastatig, mae NICE wedi cynhyrchu nifer o arfarniadau technoleg sy'n gymwys i gyffuriau a chyfundrefnau trin. Mae rheidrwydd cyfreithiol ar y GIG i dalu am feddyginiaethau a thriniaethau sy'n cael eu hargymell gan arfarniadau technoleg NICE. Hefyd, mae NICE wrthi ar hyn o bryd yn datblygu dau ganllaw clinigol—un ar gyfer canser y fron yn ei gyfnodau cynnar ac un ar gyfer canser y fron sydd wedi ymledu, hynny yw, metastatig. Nid yw'r naill na'r llall o'r rhain ond yn eu cyfnod datblygu cynnar ar hyn o bryd, a disgwylir i'r canllawiau gael eu cyhoeddi yn gynnar yn 2009.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam na ddefnyddir y gwasanaethau cyfredol a ddarperir gan y grŵp cefnogi bwydo o'r fron, Milk Mates, yn rhan o'r cynllun Dechrau'n Deg? (WAQ49954) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.***

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Mae Milk Mates wedi bod yn rhan cyn hyn o Cychwyn Cadarn ym Mro Morgannwg, sy'n dod o dan ymbarél Cymorth—y gronfa gymorth i blant a phobl ifanc. Mae gan Cymorth gylch gwaith ehangach na Dechrau'n Deg ac mae felly'n cyllido ystod ehangach o weithgareddau cymorth. Mae Dechrau'n Deg yn canolbwyntio ar bedair hawl greiddiol, sef gwasanaeth ychwanegol gan ymwelwyr iechyd, gofal plant safonol i blant dwy flwydd oed, rhaglenni magu plant a sesiynau iaith a chwarae. Gall partneriaethau gynnwys gwasanaethau ychwanegol sy'n ategu'r hawliau craidd hyn yn ôl eu disgresiwn unwaith y mae'r gwasanaethau craidd wedi cael eu sicrhau.

Ar ôl ystyried yr angen yn lleol, mae partneriaeth plant a phobl ifanc Bro Morgannwg wedi penderfynu cysoni'r gwasanaethau Cychwyn Cadarn a gâi eu cyllido dan gronfa Cymorth gyda Dechrau'n Deg, gan fod cryn lawer o orgyffwrdd yn y meysydd gwaith hyn.

Gan fod Milk Mates eisoes yn gweithio'n agos gydag ymwelwyr iechyd a bydwragedd, mae'r bartneriaeth wedi negodi y bydd y cymorth proffesiynol hwn yn parhau dan y gwasanaeth ymwelwyr iechyd a bydwragedd cyffredinol, a bydd y bartneriaeth yn dal i roi cefnogaeth drwy'r cyfnod pontio. Mae'r posibilrwydd o leoli gwirfoddolwyr Milk Mates mewn clinigau babanod a lleoliadau iechyd addas eraill yn cael ei archwilio gan y bartneriaeth ar hyn o bryd. Byddai hyn yn golygu bod modd i'r cymorth gwerthfawr sy'n cael ei ddarparu gan wirfoddolwyr Milk Mates barhau ar sail ehangach, ac nid dim ond yn yr ardaloedd yr oeddent yn eu gwasanaethu gynt o dan Cychwyn Cadarn. Byddai un o brosiectau Cymorth felly yn dod yn rhan o'r ddarpariaeth brif ffrwd.

**Eleanor Burnham:** Pa ymgynghori a fu rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru a byrddau iechyd lleol ynghylch lleihau nifer y copïau o gyhoeddiad Cyffurlyfr Cenedlaethol Prydain a roddir i feddygon teulu gweithredol yng Nghymru? (WAQ49955)

**Eleanor Burnham:** A wnaed dadansoddiad llawn o effaith newid y drefn o ddosbarthu Cyffurlyfr Cenedlaethol Prydain cyn gweithredu'r newidiadau ac os do, beth oedd graddfa'r dadansoddiad hwn? (WAQ49956)

**Eleanor Burnham:** A ystyriwyd y ffaith na allai staff nad oedd â mynediad rhwydd at gyfrifiadur ddefnyddio fersiwn ar-lein Cyffurlyfr Cenedlaethol Prydain, cyn penderfynu newid y drefn flaenorol o ddosbarthu'r cyffurlyfr cenedlaethol? (WAQ49957)

**Eleanor Burnham:** A roddwyd ystyriaeth i'r angen i ddefnyddio Cyffurlyfr Cenedlaethol Prydain y tu allan i bractisys meddygon teulu, er enghraifft, yn ystod ymweliadau cartref, cyn penderfynu lleihau nifer y copïau a ddosberthir yng Nghymru? (WAQ49958)

**Eleanor Burnham:** Pa gytundeb a wnaed rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru a byrddau iechyd lleol ynghylch lleihau nifer y copïau o gyhoeddiad Cyffurlyfr Cenedlaethol Prydain a roddir i feddygon teulu gweithredol yng Nghymru? (WAQ49959)

**Brian Gibbons:** Yn wreiddiol, câi Cyffurlyfr Cenedlaethol Prydain ei archebu gan yr awdurdodau iechyd, a nhw fyddai'n talu amdano ac yn ei ddosbarthu i bersonau a chyrff gofal iechyd sylfaenol, cymunedol ac eilaidd, ynghyd â sefydliadau dysgu perthnasol. Yn ad-drefniad 2003, cafodd yr arian ei drosglwyddo i'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ond, o fis Ebrill 2006, mae'r gyllideb wedi trosglwyddo i'r Cynulliad ac mae'r archebion yn cael eu cyd-drefnu gan ganolfan gwasanaethau busnes y GIG ar ein rhan.

Talwyd yn llawn am y dyraniad o Gyffurlyfr Cenedlaethol Prydain 52 a'r cyffurlyfr pediatrig o'r gyllideb am y flwyddyn ariannol hon, ac mae'r llyfrau wedi cael eu cyflenwi i ragnodwyr yn y ffordd arferol.

Mae'r galw diweddar am gopïau papur o'r cyffurlyfr ar gyfer nifer gynyddol o ragnodwyr posibl wedi rhoi cryn straen ar yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r adnoddau wedi cael eu targedu'n fwy cost effeithiol erbyn hyn, drwy fanteisio ar y buddsoddiad sylweddol mewn technoleg gwybodaeth yn y GIG, i drosglwyddo rhai defnyddwyr i'r gwasanaeth ar-lein, sy'n darparu mynediad cyfatebol at wybodaeth y cyffurlyfr.

Mae pencadlys y ganolfan gwasanaethau busnes wedi ysgrifennu at y rhai sy'n cael copïau i'w hysbysu am y gostyngiad yn y nifer o gopïau papur o'r cyffurlyfr sydd ar gael ac yn cynghori y dylid rhoi gwybod i'r rhai o fewn pob practis neu sefydliad y gallai fod angen iddynt gael copi papur o'r cyffurlyfr ymhle mae'r copïau papur yn cael eu cadw.

Bydd nifer fach o gopïau papur yn cael eu cadw wrth gefn gan swyddfeydd lleol y ganolfan gwasanaethau busnes ac, ar yr amod bod rhai ar gael, gellir darparu copïau ychwanegol o wneud cais am hynny lle nodir bod angen priodol.

Lle mae'n well gan ragnodwyr ddefnyddio copi papur, ac nad oes un wedi cael ei roi iddynt ar yr achlysur hwn, bydd yr opsiwn ar gael iddynt hefyd o brynu copi'n uniongyrchol oddi wrth y cyhoeddwyr am gyfradd GIG arbennig sy'n rhoi disgownt o 50 y cant oddi ar y pris cyhoeddi arferol.

Mae adborth wedi dod i law yn dilyn y cynllun hwn a bydd ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi iddo cyn archebu'r copïau papur o gyffurlyfr 54.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y bu'n ei wneud i hyrwyddo bwyta'n iach yng Nghymru? (WAQ49962)

**Brian Gibbons:** Mae diet gwael yn bryder mawr ac yr ydym wedi datblygu strategaethau a rhaglenni i ymdrin â hyn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth ag Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yn gweithio i greu newidiadau positif yn statws maethol pobl Cymru drwy roi'r strategaeth faeth, bwyd a lles genedlaethol ar waith. Mae wedi arwain at nifer o gynlluniau a fwriadwyd i annog pobl i fwyta diet iach, megis:

- y cynllun grant hybu iechyd—bwyd a ffitrwydd, sy'n rhoi cymorth ariannol i brosiectau cymunedol sy'n annog bwyta'n iachach a ffyrdd mwy gweithgar o fyw;
- rhaglen cwmnïau bwyd cydweithredol cymunedol, a sefydlwyd i gyflenwi, o ffynonellau lleol cyn belled ag sy'n bosibl, ffrwyth a llysiau safonol, fforddiadwy, i gymunedau difreintiedig. Mae dros 110 o gwmnïau bwyd cydweithredol wedi agor o dan y cynllun er mis Ebrill 2004;
- grantiau gwerth £1.2 miliwn i gyd, sy'n cael eu darparu i ymddiriedolaethau GIG ar draws Cymru i gynyddu capasiti dietegol yn y gymuned drwy ddefnyddio arbenigedd dietegwyr i hyfforddi a datblygu gweithwyr cymunedol neu addysgwyr cymheiriaid i weithio gyda phobl yn y gymuned ar fwyta'n iach; ac
- mae grŵp gorchwyl a gorffen ar fwyd mewn ysbytai, dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog Nyrsio Cymru, wedi cael ei sefydlu i edrych ar y ddarpariaeth bwyd a diod mewn ysbytai i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Mae'r cynllun gweithredu bwyd a ffitrwydd pum mlynedd i hyrwyddo bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol i blant a phobl ifanc yng Nghymru, a lansiwyd ym mis Mehefin 2006, yn nodi rhai o'r ffyrdd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn helpu i gefnogi rhieni, plant a phobl ifanc yn eu hymdrechion i fwyta'n dda, aros yn ffit a chyrraedd y safonau iechyd uchaf posibl. Mae'r cynllun yn nodi camau gweithredu yn yr ysgol ac yn y gymuned, yn ogystal â hyfforddiant ac adnoddau i oedolion sy'n gweithio gyda phlant, i'w galluogi i ddysgu am fwyta'n iach a'r amgylchedd corfforol. Mae nifer o raglenni ar y gweill i roi'r camau a amlinellwyd yn y cynllun ar waith. Maent yn cynnwys:

- cyllid ychwanegol, sydd wedi cael ei ryddhau i ariannu cyd-drefnwyr ychwanegol i gynorthwyo gyda'r gwaith o ehangu rhwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach i bob ysgol a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol;
- mae grantiau wedi cael eu darparu ar gyfer prosiectau bwyd a ffitrwydd mewn ysgolion sy'n rhan o rwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach. Er enghraifft, gêmau lle chwarae, rheseli beiciau, siopau ffrwythau, gerddi ysgol, cyfarpar oeri dŵr, gwerthu iach a dosbarthiadau coginio y tu allan i'r ysgol;
- mae canllawiau wedi cael eu datblygu ar bolisïau bwyd a ffitrwydd ysgol gyfan;
- mae canllawiau ar giniawau pecyn wedi cael eu datblygu; a
- chynllun peilot i edrych ar ffyrdd o gyflwyno neu gynyddu opsiynau bwyd iach o fewn canolfannau hamdden.

Mae strategaeth ansawdd bwyd i wella ansawdd y bwyd sy'n cael ei fwyta yng Nghymru yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Mae cylch gwaith y strategaeth yn eang a thrawsbynciol a bydd yn ceisio

integreiddio polisïau o feysydd allweddol ar draws Llywodraeth y Cynulliad megis amaethyddiaeth, addysg, cyfiawnder cymdeithasol ac iechyd, a bydd yn cysylltu agendâu bwyta'n iach a datblygu cynaliadwy.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr ysbytai a gaeodd er 1999? (WAQ49965)

**Brian Gibbons:** Mae cyfanswm o 19 o ysbytai yng Nghymru wedi cau er 1999.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr ysbytai a israddiwyd er 1999? (WAQ49966)

**Brian Gibbons:** Mae proffiliau gwasanaethau ysbytai yn cael eu hadolygu'n barhaus i adlewyrchu gofynion clinigol ac anghenion gwasanaeth y boblogaeth leol ac, felly, bydd gwasanaethau yn parhau i ehangu, lleihau neu adleoli yn ôl yr angen. Nid oes diffiniad safonol o israddio ysbyty ac felly nid oes gwybodaeth ganolog yn cael ei dal.

**Leanne Wood:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau nad yw llygredd chwarel Brofiscin yn achosi risg i iechyd pobl nac anifeiliaid? (WAQ49978)

**Brian Gibbons:** Rhyddhaodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ddatganiad am chwarel Brofiscin ar 20 Mawrth 2007, yn datgan bod yr ymchwiliadau hyd yma wedi cadarnhau nad oes niwed canfyddadwy na pherygl ar hyn o bryd i iechyd dynol.

Ym mis Mawrth 2005, daeth Asiantaeth yr Amgylchedd yn brif awdurdod gorfodi unwaith yr oedd y safle wedi cael ei ddynodi'n 'safle arbennig' gan yr awdurdod lleol dan Ran IIA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Y bwrdd iechyd lleol sy'n gyfrifol am iechyd ei boblogaeth leol ac mae'n rhan o broses bartneriaeth amlasiantaethol o ran yr ymchwiliad i'r safle cymhleth hwn.

Mae tystiolaeth fod dŵr daear dwfn wedi cael ei lygru, ond nid oes perygl i gyflenwadau yfed. Effeithir ar ddŵr wyneb o bryd i'w gilydd ac mae mesurau wedi cael eu sefydlu i atal da byw rhag yfed o ffynonellau dŵr wyneb.

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol a'r Asiantaeth Diogelu Iechyd yn ymwybodol bod ymchwiliadau amgylcheddol ychwanegol wedi cael eu cynnal a disgwylir i'r canlyniadau hyn fod ar gael yng ngwanwyn 2007. Bydd y bwrdd iechyd lleol—gyda chymorth arbenigol oddi wrth y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ac is-adran peryglon cemegol a gwenwynau'r Asiantaeth Diogelu Iechyd, os yw hynny'n briodol—yn rhoi'r cymorth perthnasol i Asiantaeth yr Amgylchedd a'r awdurdod lleol i wneud sylwadau ar ganfyddiadau'r ymchwiliadau diweddaraf hyn a hefyd i gyfleu gwybodaeth i'r gymuned leol.

Ar lefel genedlaethol, mae'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, ynghyd â'r Asiantaeth Diogelu Iechyd, wedi darparu cyngor, yn ystod 2006-07, i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â gweithredu ail flwyddyn y cynllun grant tir halogedig/y gronfa gyfalaf, sydd wedi ariannu'r ymchwiliadau pellach i safleoedd tir halogedig ar draws Cymru.

**Janet Ryder:** Yn dilyn yr ateb i WAQ49380, WAQ49381 a WAQ49382, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau pa raddfa neu fand yw'r norm ar gyfer nyrs staff brofiadol yn gweithio amser llawn mewn uned gofal coronaidd mewn ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru? (WAQ49981)

**Brian Gibbons:** Mae cyflwyno cynllun gwerthuso swyddi'r GIG wedi cydnabod y bydd nyrs sydd newydd gymhwyso yn dechrau ar fand 5. Gallai union ystod y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau amrywio o

fewn unedau gofal coronaidd, a gallai hyn gael ei adlewyrchu mewn amryw o fandiau sy'n adlewyrchu dyletswyddau a chyfrifoldebau nyrsys sy'n gweithio yn y maes clinigol hwn.

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pryd fydd yr adolygiad arfaethedig ynghylch rôl ysbyty Llandudno i'r dyfodol wedi ei gwblhau? (WAQ49982)

**Brian Gibbons:** Bwrdd Iechyd Lleol Conwy sy'n arwain yr adolygiad cyffredinol o ysbyty Llandudno ar ran y comisiynwyr lleol sydd â buddiant uniongyrchol yn yr ysbyty. Fel y cytunwyd gyda chynghorau iechyd cymuned Conwy, mae cadeirydd annibynnol i gael ei benodi gan y BILl i oruchwylio'r adolygiad. Mae'r BILl yn cynnal trafodaethau ag ymgeiswyr addas ar hyn o bryd ac mae'n disgwyl penodi unrhyw ddiwrnod. Bydd yr adolygiad yn cymryd chwe mis wedi hynny, cyn adrodd yn ôl i'r comisiynwyr.

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pryd fydd yr adolygiad arfaethedig ynghylch gwasanaethau llawdriniaeth y fron sydd yn ysbyty Llandudno ar hyn o bryd wedi ei gwblhau? (WAQ49983)

**Brian Gibbons:** Bwrdd Iechyd Lleol Conwy sy'n arwain yr adolygiad o wasanaethau llawdriniaeth y fron ar ran comisiynwyr lleol y gwasanaeth. Fel y cytunwyd gyda chynghorau iechyd cymuned Conwy, arbenigwyr annibynnol fydd yn ymgymryd â'r adolygiad hwn. Mae'r BILl wedi penodi dau arbenigwr ac mae'r adolygiad ar y gweill erbyn hyn a bydd yr arbenigwyr yn darparu adroddiad i'r comisiynwyr cyn diwedd mis Mehefin 2007. Wedi hynny, bydd y comisiynwyr yn penderfynu ynglŷn â darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol ac yn cyfleu hyn, mewn modd amserol, i grŵp prif adolygiad Llandudno fel penderfyniad diffiniol.

**Lisa Francis:** Ar ba gynigion y mae Comisiwn Iechyd Cymru'n gweithio i ddarparu mathau eraill o driniaethau cleifion mewnol ar gyfer cleifion sydd ag anhwylder bwyta yng Nghaerfyrddin ac a fyddant yn cynnwys sefydlu tîm therapi dwys cymunedol yn ardal Sir Gaerfyrddin? (WAQ49984)

**Brian Gibbons:** Mae'r comisiwn yn gweithio'n agos gydag ymddiriedolaethau ar hyn o bryd i ddatblygu cynigion amgen yn lle triniaethau cleifion mewnol. Mae'r rhain yn cynnwys timau allgymorth arbenigol a chyfleusterau gofal dydd i gynorthwyo rhagor o gleifion gartref, rheoli'r galw a sicrhau mai dim ond y cleifion hynny y mae angen gwasanaethau trydyddol i gleifion mewnol arnynt sy'n gorfod teithio i ganolfannau o'r fath.

Mae'r comisiwn yn adolygu'r galw am welyau cleifion mewnol yng ngoleuni gostyngiad dros gyfnod yn y nifer o dderbyniadau ac mae'n bwriadu datblygu gwasanaethau cymunedol cryfach. Bydd canlyniad yr adolygiad hwn yn dylanwadu ar ffurf gwasanaethau anhwylderau bwyta yn y dyfodol. Mae cynlluniau i dreialu gwasanaeth cymunedol yn ne-ddwyrain Cymru ac, os bydd yn llwyddiannus, efallai y caiff ei gyflwyno ar draws y tri rhanbarth.

Mae'r comisiwn o blaid datblygu gwasanaethau cymunedol ac mae'n ymchwilio ar hyn o bryd i wahanol fodelau o dimau therapi dwys cymunedol a allai gael eu comisiynu ledled Cymru.

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â pha gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cynllunio, neu yn eu cynllunio, yn dilyn y bleidlais i basio cynnig â dyddiad trafod 3450 ar 6 Chwefror 2007? (WAQ49985)

**Brian Gibbons:** Yr ydych wedi gofyn imi wneud datganiad ar ba gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cynllunio, neu yn eu cynllunio, yn dilyn y bleidlais i basio cynnig â dyddiad trafod 3450 ar 6 Chwefror 2007. Y penderfyniad ar y diwrnod hwnnw oedd:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

*1. yn cydnabod bod hyder y cyhoedd wedi cael ei danseilio gan y ffordd yr ymdriniwyd â'r ymgynghoriadau i ailgyflunio'r sector aciwt yn y gwasanaeth iechyd a;*

*2. yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal adolygiad o'r drefn ymgynghori gyfredol gyda'r nod o gyflwyno system gadarn a thryloyw cyn i ragor o ailgyflunio ddigwydd.*

*3. yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i wella'r cydgysylltu a'r gweithio ar y cyd rhwng y gwasanaeth ambiwlans, adrannau damweiniau ac achosion brys a gwasanaethau y tu allan i oriau meddygon teulu, fel rhan o'r gwaith o greu gwasanaeth gofal iechyd modern, addas i'r diben yng Nghymru.*

*4. yn gresynu bod methiant Llywodraeth y Cynulliad i sefydlu, yn gynharach, ymchwiliad i'r broses ymgynghori ddiffygiol ynghylch darparu gwasanaethau llawdriniaeth frys yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli, yn golygu bod y gwasanaethau hynny eisoes wedi'u hatal.*

*5. yn croesawu datganiad y Gweinidog ar 1 Chwefror 2007 ei fod yn awr wedi cytuno i ymchwiliad annibynnol ynghylch darparu gwasanaethau llawfeddygol brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli, ac yn galw ar y Gweinidog i:*

*a) cyhoeddi'r cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad hwn ar fyrder;*

*b) cynnwys yn y cylch gorchwyl archwiliad o unrhyw gyfraniad a wnaeth ei adran yn y penderfyniad i gau gwasanaethau llawdriniaeth frys yn Ysbyty Tywysog Philip; ac*

*c) sicrhau y cwblheir yr ymchwiliad erbyn 15 Mawrth er mwyn i'w ymateb gael ei ystyried yng nghyfarfod llawn y Cynulliad yn ystod tymor cyfredol y Cynulliad hwn.*

Yr ydych wedi gofyn imi beth yr wyf yn bwriadu ei wneud i ddelio â'r penderfyniad hwn. Ymdriniaf â phob pwynt ar wahân.

Pwyntiau 1 a 2—*yn cydnabod bod hyder y cyhoedd wedi cael ei danseilio gan y ffordd yr ymdriniwyd â'r ymgynghoriadau i ailgyflunio'r sector aciwt yn y gwasanaeth iechyd ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal adolygiad o'r drefn ymgynghori gyfredol gyda'r nod o gyflwyno system gadarn a thryloyw cyn i ragor o ailgyflunio ddigwydd.*

Wrth gydnabod bod nifer o'r cynigion ailgyflunio wedi creu pryder ymysg y cyhoedd, rhaid cydnabod hefyd fod llawer iawn o gynnydd wedi cael ei wneud gyda'r adolygiad o'r gwasanaethau aciwt mewn amser cymharol fyr. Hefyd, un canlyniad o bwys oedd lefel uchel o ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r angen am newid, a chefnogaeth i hynny.

Mae nifer o benderfyniadau wedi cael eu derbyn gan gynghorau iechyd cymuned lle mae pryder wedi cael ei fynegi, megis yn Llandudno a chanolbarth a gorllewin Cymru. Mae'r GIG wedi cydnabod y pryderon hyn ac mae'n gwneud gwaith pellach.

Yr ydym yn dysgu o'r broses hon. Mae'r cyn-gyfarwyddwr cyllid wrthi ar hyn o bryd yn ystyried materion llywodraethu o ran y GIG, ac mae fy swyddogion wedi cwrdd yn barod i drafod y broses ailgyflunio ddiweddar, gyda golwg ar ddarparu canllawiau ymgynghori diwygiedig. Bydd y canllawiau diwygiedig hyn yn rhoi eglurder ynghylch ymgynghoriadau sy'n cael eu cynnal yn rhanbarthol.

Byddwn hefyd yn dysgu o ganlyniad yr ymchwiliad annibynnol yn Llanelli. Bydd fy swyddogion yn manteisio ar y pethau a nodir fel rhan o'r ymchwiliad, ac yn eu tro byddant yn cyfrannu at y canllawiau ymgynghori diwygiedig ar gyfer y GIG.

Pwynt 3—*yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i wella'r cydgysylltu a'r gweithio ar y cyd rhwng y gwasanaeth ambiwlans, adrannau damweiniau ac achosion brys a gwasanaethau y tu allan i oriau*

*meddygon teulu, fel rhan o'r gwaith o greu gwasanaeth gofal iechyd modern, addas i'r diben yng Nghymru.*

Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn rhoi sylw i'r mater hwn drwy'r strategaeth darparu gwasanaethau gofal brys. Gweledigaeth brosiect y strategaeth honno drwyddi draw yw darparu gwasanaeth sy'n sicrhau bod cleifion—ni waeth sut na phryd y maent yn cysylltu ag unrhyw un o'r gwasanaethau brys—yn cael eu hasesu ac yna'n cael eu gweld gan y gweithiwr gofal iechyd mwyaf priodol ar yr adeg fwyaf priodol.

Daeth yr ymgynghori ynghylch y strategaeth darparu gwasanaethau gofal brys i ben ar 10 Hydref 2006. Mae bwrdd prosiect yn ystyried yr ymatebion yn awr a bydd yn cyhoeddi dogfen derfynol yng ngwanwyn 2007. Bydd hyn yn cynnwys cynllun gweithredu.

Pwyntiau 4 a 5— *yn gresynu bod methiant Llywodraeth y Cynulliad i sefydlu, yn gynharach, ymchwiliad i'r broses ymgynghori ddiffygiol ynghylch darparu gwasanaethau llawdriniaeth frys yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli, yn golygu bod y gwasanaethau hynny eisoes wedi'u hatal ac yn croesawu datganiad y Gweinidog ar 1 Chwefror 2007 ei fod yn awr wedi cytuno i ymchwiliad annibynnol ynghylch darparu gwasanaethau llawfeddygol brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli, ac yn galw ar y Gweinidog i:*

*a) cyhoeddi'r cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad hwn ar fyrder;*

*b) cynnwys yn y cylch gorchwyl archwiliad o unrhyw gyfraniad a wnaeth ei adran yn y penderfyniad i gau gwasanaethau llawdriniaeth frys yn Ysbyty Tywysog Philip; ac*

*c) sicrhau y cwblheir yr ymchwiliad erbyn 15 Mawrth er mwyn i'w ymateb gael ei ystyried yng nghyfarfod llawn y Cynulliad yn ystod tymor cyfredol y Cynulliad hwn.*

Ar 22 Mawrth 2007, cyhoeddais ddatganiad Cabinet ysgrifenedig sy'n delio â'r materion hyn. Mae i'w weld ar:
http://assembly/cabinet/Content/statements/2007/22.3.07%20inquiry%20into%20general%20surgical,%20carms.rtf

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint mae rhedeg ysbytai Llandudno, Llanelwy ac Abergele yn eu ffurf bresennol yn ei gostio i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ49986)

**Brian Gibbons:** Mater i'r byrddau iechyd lleol yw comisiynu gwasanaethau o fewn eu dyraniadau ariannol blynyddol ac, yn eu tro, darparu adnoddau i'r ymddiriedolaethau i gyflwyno gwasanaethau. Ar hyn o bryd, mae'r ymddiriedolaethau yn rheoli eu gwasanaethau'n ariannol ar sail swyddogaethol, yn hytrach nag ar sail safleoedd penodol. Er mwyn gweithredu 'Cynllun Gogledd Cymru', bydd modelu ariannol manwl pellach yn nodi'r dosbarthiad adnoddau ar sail swyddogaethol ac ar sail safleoedd penodol, fel sylfaen i ailgyflunio gwasanaethau.

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan beth fydd yr arbedion net i Lywodraeth Cynulliad Cymru os yw'r cynlluniau i israddio ysbyty Llandudno a chau ysbytai Llanelwy ac Abergele, fel yr argymhellwyd yn 'Cynllun Gogledd Cymru', yn cael eu cymeradwyo? (WAQ49987)

**Brian Gibbons:** Nid oedd 'Cynllun Gogledd Cymru' yn trafod israddio Ysbyty Cyffredinol Llandudno. Nid oes arbedion uniongyrchol i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn deillio o 'Cynllun Gogledd Cymru'. Y prif ffactor i sbarduno newid oedd darparu gwasanaethau clinigol modern a diogel o ansawdd uchel.

**Janet Ryder:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud gyda phartneriaid a rhanddeiliaid perthnasol ynghylch nifer y swyddi a gollid pe bai'r cynlluniau i israddio ysbyty Llandudno a chau ysbytai Llanelwy ac Abergele, fel yr argymhellwyd yn 'Cynllun Gogledd Cymru', yn cael eu cymeradwyo? (WAQ49988)

**Brian Gibbons:** Nid oes cynlluniau i israddio ysbyty Llandudno. Nid yw 'Cynllun Gogledd Cymru' wedi'i seilio ar golli swyddi; yn hytrach, mae'n adeiladu ar y nifer mwyaf erioed o feddygon, nyrsys a gweithwyr iechyd eraill newydd sy'n cael eu cyflogi gan y GIG yng Nghymru. Mae gan yr ymddiriedolaethau bolisïau adnoddau dynol sydd wedi hen ennill eu plwyf i ymdrin â throsglwyddo staff, lle mae gofyn am hynny.

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi tabl yn dangos faint o arian y mae pob hosbis annibynnol yng Nghymru yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a chanran cyllideb refeniw'r hosbis honno y mae'r arian hwnnw'n ei gynrychioli? (WAQ49989)

**Brian Gibbons:** Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau gofal lliniarol. I gydnabod y rôl werthfawr y mae'r sector gwirfoddol yn ei chwarae yn darparu'r gwasanaethau hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu £10 miliwn dros bedair blynedd i wella a datblygu'r gwasanaethau hyn.

O 2007-08, am y tro cyntaf, mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu £2 filiwn ar gyfer gwasanaethau gofal lliniarol o ansawdd uchel a ddarperir gan y sector gwirfoddol i ddiwallu anghenion cydnabyddedig cleifion. Bydd canlyniad yr adolygiad o wasanaethau gofal lliniarol, sydd ar y gweill ar hyn o bryd, yn dylanwadu ar ddyraniad y cyllid hwn.

Nid oes gwybodaeth am gyllidebau hosbisau unigol yn cael ei dal yn ganolog.

Isod ceir tabl o'r hosbisau hynny y dyfarnwyd cyllid iddynt fel rhan o'r rhaglen £10 miliwn i gyllido gofal lliniarol.

| **Hosbis** | **Disgrifiad byr o'r cynllun** | **Cyfanswm a gynigiwyd £** |
|---|---|---|
| Ffagl Gobaith | Staff a gwasanaethau ychwanegol | 73,460 |
| Bracken Trust | Darparu offer, hyfforddiant a staff | 135,596 |
| Hosbis George Thomas | Cyfraniad tuag at brynu tir | 1,030,857 |
| Hosbis yn y Cartref Gwynedd | Staff a gwasanaethau ychwanegol | 246,000 |
| Holme Tower | Darparu gwasanaeth 24 awr ac adnewyddu'r capel | 498,680 |
| Tŷ Gobaith | Cost gyfalaf Tŷ Gobaith, staff ychwanegol, ystafell gwnsela a chyfleusterau | 323,375 |
| Hospice of the Good Shepherd | Staff a gwasanaethau ychwanegol | 204,862 |
| Hosbis y Cymoedd | Staff a gwasanaethau ychwanegol | 499,586 |
| Hosbis Tŷ'r Eos | Staff, gwasanaethau ychwanegol ac offer | 1,188,000 |
| Paul Satori | Darparu gwasanaethau lliniarol cartref gofal, staffio ac offer | 100,000 |
| Prosiect ar y cyd rhwng Paul Satori/Shalom House | Staff a gwasanaethau ychwanegol | 210,000 |
| Severn Hospice | Staff, gwasanaethau ychwanegol ac offer | 63,360 |
| Shalom House | Offer a chostau rhedeg uned tri gwely | 101,000 |
| St Anne's | Staff, gwasanaethau ychwanegol ac offer | 208,000 |
| St David's Foundation, Casnewydd | Darparu gwasanaethau gofal lliniarol 24 awr, gwasanaeth aros galwad a thîm cynnal teuluoedd | 1,004,441 |
| Hosbis Dewi Sant, Llandudno | Staff, gwasanaethau ychwanegol ac offer | 779,110 |
| St Kentigern | Staff, gwasanaethau ychwanegol, offer a pharlwr gwydr | 823,436 |
| Tŷ Bryngwyn | Costau uned chwe gwely | 850,000 |
| Tŷ Croeso | Costau rhedeg diwrnod ychwanegol | 38,065 |
| Tŷ Hafan | Uned a thîm cynnal teuluoedd | 673,263 |
| Tŷ Olwen | Codi uned newydd a gwasanaethau ychwanegol | 335,000 |

| | | |
|---|---|---|
| Tyddyn Bach | Datblygu'r adeilad presennol a gwasanaethau ychwanegol | 130,000 |
| Usk House | Agor am ddiwrnod ychwanegol bob wythnos | 108,350 |

**Lisa Francis:** O ran gwasanaeth ambiwlans yn Sir Drefaldwyn, a yw'r Gweinidog yn ymwybodol o gynnig cyngor iechyd cymuned Sir Drefaldwyn y dylid cael gwasanaeth ambiwlans dwy haen, i gynnwys o leiaf dau gerbyd ymateb brys ar gyfer Sir Drefaldwyn yn unig, gyda chefnogaeth ambiwlansys gwasanaeth meddygol brys i gludo cleifion i ysbytai dosbarth cyffredinol, yn ôl y galw? (WAQ49998)

**Lisa Francis:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chyngor iechyd cymuned Sir Drefaldwyn ynghylch eu cynigion ar gyfer system dwy haen o wasanaeth ambiwlans yn Sir Drefaldwyn? (WAQ49999)

**Brian Gibbons:** Yr wyf yn ymwybodol bod prif weithredwr yr ymddiriedolaeth, Alan Murray, wedi rhoi cyflwyniad i'r cyngor, a gafodd dderbyniad da. Fe'i calonogwyd gan farn y cyngor ynglŷn â threialu model gwahanol o ofal cyn-ysbyty. Nid wyf wedi cael trafodaethau uniongyrchol fy hun am y mater hwn gyda'r CIC, ond mae Mr Murray wedi trafod y ffordd gyffredinol hon o weithredu gyda mi.

Gwn ei fod yn rhoi ymrwymiad i oruchwylio'r trefniadau newydd ar gyfer Powys ac, o ganlyniad, y bydd yn sefydlu tîm prosiect o weithwyr gofal heb ei drefnu a gweithwyr gweithredol i ddechrau cwmpasu a llywio'r anghenion i'r dyfodol. Caiff y CIC wahoddiad i chwarae rhan fyw fel bod modd manteisio'n llawn ar ei wybodaeth leol fanwl a'i brofiad. Mae gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys yntau ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r broses hon hefyd.

Mae cyfarwyddwr rhanbarthol newydd wedi cael ei benodi'n ddiweddar i ranbarth canol a gorllewin yr ymddiriedolaeth a bydd ystyried ystod o opsiynau gwasanaeth a gynllunnir yn benodol i wasanaethu'r cymunedau mwy gwledig yn rhan fawr o'i gylch gwaith.

Mae awydd gwirioneddol yn y GIG yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i gymunedau Powys, mewn ffordd newydd, gydgysylltiedig.

**Jenny Randerson:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud ynghylch cwrdd â'r targedau unedau gweithgarwch deintyddol ym maes deintyddiaeth yng Nghymru, y tu hwnt i'r hyn sy'n wybodaeth gyhoeddus? (WAQ50001)

**Brian Gibbons:** Y BILlau, fel y deiliaid cyllideb, sy'n gyfrifol am gomisiynu a monitro'r contractau y maent wedi ymrwymo iddynt gyda darparwyr deintyddol yn eu hardal.

I'w helpu i fonitro gweithgarwch contractau, mae'r BILlau yn derbyn adroddiad misol am y lefelau gweithgarwch deintyddol fesul contract. Ym mis Ionawr 2007, ysgrifennodd is-adran ymarfer deintyddol awdurdod gwasanaethau busnes y GIG at y BILlau i roi iddynt fanylion y contractau hynny yr oedd perygl iddynt orgyflenwi neu dangyflenwi o ran yr unedau gweithgarwch deintyddol y maent dan gontract i'w darparu. Rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau i'r BILlau ym mis Ionawr 2007 ar y ffordd orau o reoli materion diwedd blwyddyn yn ymwneud â gorberfformio neu danberfformio yn erbyn y targedau unedau gweithgarwch deintyddol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Mark Isherwood:** Faint o arian a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i bob awdurdod unedol, i frwydro yn erbyn camddefnyddio sylweddau, gan roi'r manylion ar wahân ar gyfer alcohol a hefyd ar gyfer cyffuriau yng Nghymru, yn ystod y cyfnodau 2003-04, 2004-05, 2005-06.(WAQ49002)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Mater i'r partneriaethau diogelwch cymunedol benderfynu arno'n lleol yw dyrannu cyllid rhwng gwasanaethau cyffuriau ac alcohol. Mae'r tablau wedi cael eu rhoi yn y llyfrgell ac maent yn rhoi dadansoddiad manwl o sut y dyrannodd pob partneriaeth ei chyllid.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba mor gyflym yr ymatebodd i gwestiynau ysgrifenedig yn 2006? (WAQ49246) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Trefnydd.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ49222.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amserlen ar gyfer gweithredu rheoliadau yng Nghymru sy'n cyfateb i'r Mobile Homes (Written Statement) (Amendment) (England) Regulations 2006 a ddaeth i rym yn Lloegr fis Hydref diwethaf? (WAQ49432)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Edwina Hart:** Oherwydd pwysau eraill, nid oedd gan y swyddogion ddigon o amser nac adnoddau i gadw at yr amserlen a ragwelwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, bydd y rheoliadau hyn yn cyflwyno mesurau diogelu pwysig i berchnogion cartrefi symudol yng Nghymru ac, yn amodol ar amserlen ddeddfwriaethol y Cynulliad, maent yn debygol o gael eu cyflwyno yn yr hydref.

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith ei pholisïau ar etholaeth Dwyrain Abertawe? (WAQ49445)

**Edwina Hart:** Mae fy mholisïau wedi cael effaith yn etholaeth Dwyrain Abertawe. Er enghraifft, mae saith partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf wedi cael eu sefydlu yn Abertawe ac mae'r bartneriaeth diogelwch cymunedol wedi cael £2.33 miliwn o'r gronfa weithredu ar gamddefnyddio sylweddau (refeniw) er 2003 i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau. Rhwng 2003-04 a 2006-07, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dyrannu £24.22 miliwn mewn grant tai cymdeithasol i gymdeithasau tai sy'n gweithredu yn ardal awdurdod lleol Abertawe i helpu i ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol ar rent ac ar gyfer perchentyaeth cost isel.

**Rosemary Butler:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglen Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi undebau credyd? (WAQ49456)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i helpu i ddatblygu mudiad undebau credyd cryf yng Nghymru fel ffordd o annog cynhwysiant cymdeithasol. Mae'r prosiect creu cyfoeth drwy undebau credyd, sy'n cael ei redeg gan Ganolfan Gydweithredol Cymru gyda chymorth cyllid Amcan 1, a chydag arian cyfatebol oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad, yn dod i ben ym mis Mawrth 2007. Mae'n debygol y caiff prosiect tebyg ei gyflwyno unwaith y bydd y rhaglen cyllid cydgyfeirio yn weithredol. Yn y cyfamser, mae fy swyddogion yn gweithio gyda Chanolfan Gydweithredol Cymru i sicrhau bod pob undeb credyd yng Nghymru, nid dim ond y rhai yn yr ardal gydgyfeirio, yn gallu cyrchu at arian cyfatebol Llywodraeth y Cynulliad.

**Nick Bourne:** Pa ystyriaeth a roddir i ddefnyddio gwasanaeth trên Eurostar ar gyfer ymweliadau Gweinidogion a swyddogion â Brwsel, yn hytrach na chludiant awyr? (WAQ49526) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe'ch cyfeiriaf at WAQ49523.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r ymweliadau tramor a wnaed gan swyddogion yn ei hadran yn y flwyddyn ddiwethaf, ynghyd â'r rheswm dros yr ymweliadau hynny? (WAQ49527) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Trefnydd.***

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ49522.

**Nick Bourne:** Yng nghyswllt ei chyfrifoldebau portffolio, sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu ymateb i gasgliadau adroddiad UNICEF ar les plant a osododd y DU yn olaf mewn rhestr o 21 o wledydd datblygedig? (WAQ49538)

**Edwina Hart:** Mae'r canran o blant sy'n byw mewn tlodi cymharol yng Nghymru wedi gostwng o 35 y cant adeg datganoli i 28 y cant yn y cyfnod diweddaraf. Gwnaethpwyd cynnydd ac mae'r gwelliant yng Nghymru wedi mynd ymhellach ac yn gyflymach nag mewn llawer o rannau eraill o'r DU. Mae nifer sylweddol o bolisïau a rhaglenni wedi cael eu sefydlu ac yn cael eu cynllunio ar draws Llywodraeth y Cynulliad i'r diben o gyrraedd ein hamcan o ddileu tlodi plant erbyn 2020.

Yn fy mhortffolio i, mae'r cynllun gweithredu o ran tlodi plant yn cael ei gefnogi ag amryw o gerrig milltir a thargedau trawsbynciol i olrhain ein cynnydd tuag at darged dileu 2020.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am leoli swyddfeydd post mewn adeiladau sydd ym meddiant awdurdodau lleol megis llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden? (WAQ49898)

**Edwina Hart:** Mater i'r awdurdod lleol dan sylw yw defnyddio adeiladau awdurdodau lleol.

Wrth ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU am ei chynigion gogyfer â dyfodol y rhwydwaith swyddfeydd post, gofynnais i Weinidogion yr Adran Masnach a Diwydiant roi canllawiau i Swyddfa'r Post Cyf a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddi weithio gydag awdurdodau lleol (a chwaraewyr lleol allweddol eraill) wrth lunio cynigion ar gyfer gwasanaeth swyddfa'r post mewn unrhyw ardal, i sicrhau'r potensial mwyaf i gynnig trefniadau amgen a/neu drefniadau llawn dychymyg er darparu gwasanaethau'r swyddfa bost.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y swyddfeydd post a gaeodd er 1999? (WAQ49964)

**Edwina Hart:** Mae swyddfeydd post yn fater nad yw wedi cael ei ddatganoli ac nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu'r wybodaeth hon.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y tai cyngor a adeiladwyd yng Nghymru er 1999? (WAQ49967)

**Edwina Hart:** Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei chyhoeddi cyn hyn yn y datganiad ystadegol chwarterol am adeiladu o'r newydd. Mae modd gweld y datganiad diweddaraf drwy'r ddolen isod:

http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/40382313/403824/housing/housing-2006/sdr179-2006.pdf?lang=en

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y tai cyngor a werthwyd yng Nghymru er 1999? (WAQ49968)

**Edwina Hart:** Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei chyhoeddi cyn hyn yn y datganiad ystadegol chwarterol am werthiannau hawl i brynu. Mae modd gweld y datganiad diweddaraf drwy'r ddolen isod:
http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/40382313/403824/housing/housing-2006/sdr180-2006.pdf?lang=en

## Cwestiynau i'r Trefnydd

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba mor gyflym yr ymatebodd i gwestiynau ysgrifenedig yn 2006? (WAQ49218) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Trefnydd.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ49222.

## Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

**Leighton Andrews:** Pa bryd y gwnaeth Pwyllgor y Tŷ benderfyniad ffurfiol i fabwysiadu'r enwau uniaith 'Siambr', 'Cwrt', 'Neuadd' ac 'Oriel' i'w defnyddio yn yr adeilad newydd? (WAQ45879)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Cadeirydd Pwyllgor y Tŷ (John Marek):** Cyfeiriaf yr Aelod at gofnodion cyfarfodydd Pwyllgor y Tŷ ar 24 Mehefin 2004 a 23 Mehefin 2005, a'r papur i Bwyllgor y Tŷ ar 24 Mehefin 2005 a oedd yn ymdrin â'r mater hwn. Darperir y rhannau perthnasol o'r cofnodion a'r papur isod er gwybodaeth i'r Aelod.

**Cofnodion Pwyllgor y Tŷ, 24 Mehefin 2004**
Eitem 5.2—Y Diweddaraf am Adeilad Newydd y Cynulliad
Roedd y Llywydd wedi anfon e-bost at Aelodau'r Cynulliad yn nodi'r enwau arfaethedig ar gyfer yr ystafelloedd yn adeilad y Siambr newydd. Gofynnwyd i'r Aelodau ymgynghori â'u grwpiau.

**Gweithredu: Aelodau**

**Papur Pwyllgor y Tŷ, 23 Mehefin 2005**
Papur 3—Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Adeilad Newydd y Cynulliad
**Enwi Lleoedd yn yr Adeilad**

Yr oedd y pwyllgor wedi cael manylion am enwau i leoedd penodol yn yr adeilad newydd yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2004 fel a ganlyn:

- Senedd (yn disgrifio'r adeilad cyfan)
- Siambr
- Cwrt (y lle agored a'r hafnau y tu allan i'r Siambr a'r ystafelloedd pwyllgora)
- Neuadd (yn nhu blaen yr adeilad yn edrych allan dros y bae)
- Oriel (sy'n cynnwys y caffi cyhoeddus ac sy'n edrych dros y Neuadd, y Cwrt a'r Siambr)

Er cysondeb, bydd yr enwau hyn yn cael eu defnyddio mewn papurau pwyllgor yn y dyfodol ac mewn gwybodaeth i'r cyhoedd.

**Cofnodion Pwyllgor y Tŷ, 23 Mehefin 2005**
Eitem 2.3—Y Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Adeilad Newydd

Cyflwynodd y Dirprwy Glerc y wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor y Tŷ am gynnydd a materion cyfredol yn ymwneud ag adeiladu, gosod dodrefn ac offer a pholisïau gweithredol adeilad newydd y Cynulliad.

Nododd yr Aelodau y canlynol neu cytunwyd arnynt:

- trefnwyd ymweliad â'r adeilad ar gyfer dydd Mercher, 6 Gorffennaf. Bydd Aelodau'n penderfynu'r trefniadau mynediad ar ôl yr ymweliad;
- yr enwau a neilltuir i fannau yn y Senedd, a ddefnyddir yn y dyfodol;
- trefnwyd cwblhau'r gwaith terfynol o dan gontract yr adeilad ar gyfer 30 Awst. Fodd bynnag, byddai rhywfaint o lithriant gydag agweddau ar y gwaith adeiladu yn achosi oedi o ran dechrau'r rhaglen gosod dodrefn ac offer. Cafodd y llithriant ei achosi gan gyfuniad o ffactorau yn cynnwys newidiadau i ofynion TGCh a dosbarthu offer yn hwyr i'r safle;
- yr oedd opsiynau ar gyfer cyfleusterau gofal plant yn y Bae yn cael eu hystyried a chaiff holiadur ei gyhoeddi cyn hir;
- gofynnodd Aelod a fyddai modd cael sicrwydd gan y contractwr fod yr adeilad newydd yn cydymffurfio â rheoliadau adeiladu mewn cysylltiad â'r mynediad gwasanaeth ar y llawr cyntaf, gan mai'r unig ffordd o'i gyrraedd yw trwy lifft;
- yn ogystal â'r mynediad cyswllt, dylid ystyried mynediad allanol ar gyfer Aelodau hefyd drwy ddrws cyfleus yn swyddfeydd y Cynulliad;
- a'r dymuniad i gadw drysau tân ar agor ond gyda dyfeisiau cau awtomatig yn achos tân.

Cytunodd Pwyllgor y Tŷ i dderbyn argymhellion y papur ar wahân i'r mater yn ymwneud â mynediad, a gaiff ei ddatrys ar ôl yr ymweliad safle ar 6 Gorffennaf.

Gofynnodd William Graham i'r cofnodion nodi na ofynnwyd i'w blaid enwebu cynrychiolydd ar grŵp llywio polisi'r Gweinidog.

**Camau i'w cymryd: Dianne Bevan**

**Leighton Andrews:** Beth yw polisi Pwyllgor y Tŷ ar ddefnyddio arwyddion dwyieithog neu uniaith yn adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ45880)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**John Marek:** Nid yw Pwyllgor y Tŷ eto wedi cymryd cyfrifoldeb ffurfiol am yr adeilad. Darparwyd arwyddion dan y contract adeiladu a bydd y mater yn cael ei ystyried gan Bwyllgor y Tŷ maes o law.

**Leighton Andrews:** Ym mha un o gyfarfodydd Pwyllgor y Tŷ y penderfynwyd mabwysiadu'r enw 'Senedd' ar gyfer yr adeilad newydd? (WAQ45881)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**John Marek:** Cyfeiriaf yr Aelod at fy ateb i'w gwestiwn ysgrifenedig WAQ45879.

**Leighton Andrews:** A fu pleidlais ffurfiol erioed ym Mhwyllgor y Tŷ o blaid rhoi'r enw 'Senedd' ar yr adeilad newydd? (WAQ45882)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**John Marek:** Mae'r pwyllgor wedi cymeradwyo'r enw'n ffurfiol, heb anghytuno. Ni fu pleidlais ffurfiol.

**Carl Sargeant:** Beth fydd y cyfieithiad a ddefnyddir ar gyfer y term Cymraeg Senedd yn ystod dadleuon? (WAQ45891)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**John Marek:** 'Senedd' yw'r enw ar yr adeilad y cytunodd Pwyllgor y Tŷ arno, ac os yw Aelodau am ei ddefnyddio yn ystod dadleuon (fel sydd wedi digwydd yn ddiweddar) ni fwriedir ei gyfieithu. Mae hyn yn gyson â'r arfer mewn perthynas ag enwau eraill, er enghraifft, ni roddir cyfieithiad Saesneg o'r geiriau Tir Gofal, 'Iaith Pawb', Cadw ac Estyn, pan ddefnyddir hwy mewn dadleuon. Yn yr un modd, ni roddir cyfieithiad Cymraeg o elfennau Saesneg termau fel homestart, Age Concern Cymru, Sportsmatch Cymru, Sportlot ac Ofcom. Mae cofyddiaeth fel ELWa yn cynnwys llythrennau cyntaf geiriau Saesneg (Education and Learning Wales yn yr achos hwn) a'r term hwn a ddefnyddir hefyd wrth gyfieithu ar y pryd.

**Carl Sargeant:** Pryd gytunodd Pwyllgor y Tŷ i enwi adeilad newydd y Cynulliad yn Senedd? (WAQ45892)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**John Marek:** Cyfeiriaf yr Aelod at fy ateb i WAQ45879.

**Leighton Andrews:** Yn dilyn yr ateb i WAQ45879, a wnaiff cynrychiolydd Pwyllgor y Tŷ ddangos yr e-bost gan y Llywydd y cyfeiriwyd ato yng nghofnod Pwyllgor y Tŷ ar 24 Mehefin 2004? (WAQ46067)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**John Marek:** Gohebiaeth breifat oddi wrth y Llywydd at Aelodau oedd yr e-bost. Ni fyddai'n briodol i ohebiaeth o'r fath gael ei chyhoeddi. Fodd bynnag, yr enwau a awgrymwyd yn yr e-bost oedd: Senedd—yr adeilad newydd yn ei gyfanrwydd; Neuadd—y brif neuadd dderbyn fawr; Oriel—yr oriel uchaf lle cynhelir digwyddiadau a chaffi; Cyntedd—cyntedd yr Aelodau; Siambr—y brif Siambr drafod; Pont—y bont gysylltu; Swyddfa—y bloc swyddfeydd presennol; Glanfa—Pierhead; a Rhodfa—y llwybr bordiau.

**Leighton Andrews:** Pwy gafodd fynediad at yr araith ddrafft a baratowyd ar gyfer agor adeilad y Cynulliad gan y Clerc ac yr honnwyd iddi gael ei rhyddhau i'r *Western Mail* ar 11 Chwefror 2006, ac a yw'n bwriadu sbarduno ymchwiliad i'r rhyddhau hwnnw? (WAQ46068)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**John Marek:** Nid yw'n arfer gennyf ddatgelu materion yn ymwneud â phrosesau mewnol yng Ngwasanaeth Seneddol y Cynulliad, na chyngor a roddwyd gan staff i Aelodau. Nid oes gennyf unrhyw fwriad i sefydlu ymchwiliad i'r rhyddhau honedig.

**Leighton Andrews:** Beth fu cyfanswm y tanwario ar y cyllidebau a reolir gan Bwyllgor y Tŷ, ym mhob blwyddyn, ers ei sefydlu? (WAQ48585)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Cynrychiolydd Pwyllgor y Tŷ (William Graham):** Mae'r tanwariant o flwyddyn i flwyddyn ar gyllidebau sy'n cael eu rheoli gan Bwyllgor y Tŷ, o 2000-01 hyd at 2005-06, yn gyfanswm o £12.7 miliwn. Y llynedd, yr oedd y tanwariant yn 2 y cant o'r gyllideb benodedig. Mae'r tanwariant yn cronni dan y trefniadau y cytunwyd arnynt rhwng y Pwyllgor a'r Gweinidog Cyllid. Fe'i defnyddir ar gyfer gwariant cyfalaf mawr a gwariant untro y byddai rhaid fel arall iddo gael ei dalu o gyllideb flynyddol y Cynulliad.

Er enghraifft, cymeradwyodd y pwyllgor fod £1.5 miliwn i gael ei dynnu i lawr o hyblygrwydd diwedd blwyddyn yn 2002-03 (mewn perthynas â'r Lanfa), £4 miliwn yn 2005-06 (sef cyfraniad tuag at gostau gosod dodrefn ac offer prosiect adeilad y Senedd) ac £1.2 miliwn yn y flwyddyn ariannol gyfredol (ar gyfer costau rhedeg y Senedd a gwaith i helpu i weithredu'r newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn effeithiol), gan adael gweddill o oddeutu £6 miliwn.

Rhagwelir y bydd angen i'r pwyllgor ddefnyddio rhagor o'r gweddill sydd wedi cronni i gyllido gofynion ychwanegol eleni, yn benodol y gwasanaeth cymorth TGCh interim yn y Senedd; paratoadau ar gyfer seilwaith a systemau TGCh i gynorthwyo Comisiwn y Cynulliad; ac o bosibl cyllido gwaith i hyrwyddo cymryd rhan yn Etholiadau 2007 drwy waith y Comisiwn Etholiadol.

Mae Pwyllgor y Tŷ wedi rheoli ei gyllideb yn ddoeth bob amser ac nid yw erioed wedi gorwario. Mae'r tanwariant cronedig wedi cael ei ddefnyddio yn lle cronfa wrth gefn neu gronfa ad-dalu (nid oes gan Bwyllgor y Tŷ gronfa wrth gefn ffurfiol fel y Llywodraeth) i dalu costau gwaith mawr (fel ail-doi adeilad y Lanfa a darpariaeth TGCh y Senedd). Fel arall byddai'r costau hyn yn disgyn ar gyllideb flynyddol y Cynulliad.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol, bydd unrhyw swm cronedig sydd ar ôl ar gael i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Caiff trefniadau newydd eu sefydlu yn y blynyddoedd i ddod dan Gronfa Gyfunol Cymru a Chomisiwn y Cynulliad.

Yr oedd y tanwariant o flwyddyn i flwyddyn fel a ganlyn:

| **Blwyddyn** | **Tanwariant** |
|---|---|
| 2000-01 | 2,373 |
| 2001-02 | 2,357 |
| 2002-03 | 2,847 |
| 2003-04 | 1,672 |
| 2004-05 | 2,710 |
| 2005-06 | 710 |
| **Cyfanswm** | **12,669** |